# Y DINESYDD

Rhagfyr 2022 / Ionawr 2023

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhf 474 £1.20





## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Dinesydd

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Hywel Jones**

***Golygydd Chwefror***
***Alun Treharne***

Cyfraniadau erbyn 27 Ionawr at:
aluntreharne@btinternet.com
91 Windermere Avenue,
Parc y Rhath,
Caerdydd, CF23 5PS
029 20754436 / 07800 908898

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau at:
Gwilym Dafydd (dros dro)
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657106

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:


## Anrheg Nadolig Wahanol

Beth am dalu tanysgrifiad blwyddyn i dderbyn *Y Dinesydd* yn anrheg Nadolig? Bydd *Y Dinesydd* yn cyfrannu drwy gynnwys rhifynnau Chwefror a Mawrth am ddim i ddarllenwyr newydd!




Gan fod ein capeli a'n heglwysi wedi ailagor ers tro ar ôl cyfnod clo y feirws corona, a hoffech chi ddychwelyd i'r hen drefn o dderbyn eich copi o'r Dinesydd. Mae'r trefniant o godi y copiau felly yn hawdd, cadarn a phersonol gan ei fod yn cynnwys cyfle i gyfarfod wyneb yn wyneb â'r dosbarthwr. Os felly rhowch wybod i'r dosbarthwr neu ysgrifennwch neges e-bost at aloevans@icloud.net.

---

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*"Diolch am fod 2022 yn dirwyn i ben"*

Dyma'r golofn olaf am eleni gan fod 2022 yn prysur ddirwyn i ben a diolch byth am hynny gan ei bod wedi bod yn flwyddyn llawn pryder am y dyfodol, methiant BREXIT, rhyfel yn Wcráin, ansicrwydd gwleidyddol ac ati ac ati! Serch hynny mae ychydig o oleuni wedi bod gan fod ein gwyliau cenedlaethol i gyd wedi llwyddo eleni ac wedi rhoi mwynhâd i filoedd. Ar ben hynny mae llwyddiant ein tîm pêl-droed wedi ysbrydoli'r genedl.




Yn Ionawr bydd Efa Gruffudd Jones yn dechrau ar ei swydd newydd fel Comisiynydd y Gymraeg i olynu'r diweddar Aled Roberts. Cyn ymgymryd â'i swydd newydd roedd hi'n brifweithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a chyn hynny yn brifweithredwr Urdd Gobaith Cymru. Dymunwn yn dda iddi wrth iddi fynd ati i hybu a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd cyhoeddus y wlad.

Eleni, bu Cymdeithas Cymru-Ariannin yn dathlu dau gan mlwyddiant geni Michael D Jones, un o brif sylfaenwyr Y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Fel rhan o'r dathliadau cynigwyd ysgoloriaeth gwerth £3,000 i berson o'r Wladfa sydd yn gefn i'r Gymraeg yno. Enillydd yr ysgoloriaeth ydy gŵr 47 oed o'r enw Santiago Messa o'r Gaiman a Threlew yn Nyffryn Camwy. Fel rhan o'r ysgoloriaeth bydd yn ymweld â Chymru y flwyddyn nesa. Flynyddoedd yn ôl bu Santiago yn fyfyriwr yng Ngholeg Glynllifon ger Caernarfon a thra yno daeth yn gwbl rugl ei Gymraeg. Mae ei nain Margareta Evans sy dros 90 oed yn dal i fyw yn Stryd Michael D Jones yn y Gaiman ac yn siwr o fod yn falch iawn o lwyddiant ei hŵyr.

Mae'r BBC yn dathlu ei ganmlwyddiant eleni. Yma yng Nghymru dechreuodd y BBC ddarlledu o Gaerdydd ar 13 Chwefror 1923 cyn sefydlu stiwdios yn Abertawe a Bangor. Ar y dechrau cysylltwyd Cymru â De Orllewin Lloegr ond ar ôl llawer o ddadlau ac ymgyrchu rhyddhawyd Cymru o'r trefniant hwn. Hyd heddiw, serch hynny, Llundain sydd â'r gair olaf ynglŷn â phenderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â Chymru. Bellach mae ymgyrchu ar waith i sicrhau Corfforaeth Ddarlledu Annibynnol i Gymru. Erbyn hyn mae Canolfan Ddarlledu'r BBC yng Nghymru mewn adeilad pwrpasol, newydd sbon gyferbyn â Gorsaf Ganolog y ddinas.

Ystyrir Capel y Tabernacl yn Nhreforus yn 'eglwys gadeiriol' anghydffurfiaeth yng Nghymru. Mae'n glamp o adeilad hardd gyda meindwr uchel ac mae lle i 1,450 o bobl ynddo! Mae'r capel yn adeilad cofrestredig ac felly mae ei ddyfodol yn sicr. Fel rhan o ddathliadau 150 o flynyddoedd ers sefydlu'r Tabernacl, darlledwyd cymanfa ganu o'r capel fis diwethaf ar Dechrau Canu Dechrau Canmol ar S4C. Cafwyd canu gorfoleddus dan arweiniad Rob Nicholls a Huw Tregelles Williams wrth yr organ.



Wel, fe ddaeth ymgyrch Cymru yng Nghwpan y Byd yn Qatar i ben yn sŵn Yma o Hyd! Diolch i Robert Page am ei waith trylwyr yn paratoi'r tîm ac i'r garfan gyfan am roi Cymru ar fap y byd a rhoi hwb i'r Gymraeg ar yr un pryd.

Mae'n hen bryd i mi ddod â'r golofn hon i ben felly, am y tro, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd well i bawb o ddarllenwyr *Y Dinesydd*!



# Aelwyd Hamdden

Bu 9 Tachwedd yn garreg filltir nodedig i aelodau Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Yn y flwyddyn 1991 cychwynnodd yr Aelwyd i Gymry Caerdydd, ond oherwydd Cofid, methwyd â dathlu y 30 mlynedd yn 2021. Ar ddechrau 1991, cafodd Gwenda Morgan y syniad i ddarparu modd i bobl gymdeithasu'n gyson ac i ddod â chyfeillion at ei gilydd yn y ddinas. Yn fuan wedyn ffurfiwyd Côr Aelwyd Hamdden a chystadlu'n gyson, dan arweiniad Eilonwy Jones, yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan guro corau adnabyddus Cymru lawer tro. Cafwyd cyfle i hel atgofion ar y 9fed a chyflwynodd Gwenda Morgan, y sylfaenydd, ddarlith hynod ddiddorol gan atgoffa'r aelodau gwreiddiol am gant a mil o brofiadau o bob math, a darlithiau, dathliadau a theithiau yn dwyn llawer o atgofion yn ôl.


Mair Morgan (cadeirydd), Gwyneth Dyer, Beth Killen (ysgrifennydd) a Gwenda Morgan


Triawd Seren

Paratowyd arddangosfa helaeth o luniau diddorol yn olrhain y gweithgarwch rhyfeddol gyflawnwyd dros y 30 mlynedd. Torrodd Gwenda a Mair Hughes, un o aelodau cyntaf yr Aelwyd, gacen a luniwyd gan Anwen Phillips yn dangos cartrefi'r Aelwyd a'r Côr yn Eglwysi Minny Street a Bethel, Rhiwbeina.

Diolchodd y llywydd presennol, Mair Morgan, i bawb am y paratoadau a'r te blasus – gan annog yr aelodau i gefnogi'r Aelwyd am flynyddoedd eto ym Methel, bob yn ail ddydd Mercher am 11 o'r gloch y bore.

Ar 23 Tachwedd, croesawyd grŵp o offerynwyr o'r enw Triawd Seren, dan adain Live Music Now, Caerdydd, i ddiddanu'r aelodau mewn cyngerdd safonol gan raddedigion dawnus – Michael Gibbs ar y corn Ffrengig, ei wraig Polly Gibbs ar y baswn ac Eric Wolfe-Gordon ar yr obo. Cyflwynwyd amrywiaeth o fiwsig o fyd pop, caneuon serch a ffilm i'r clasurol o waith Gershwin, Mozart, Bizet ac eraill. Gorffennwyd y gyngerdd arbennig yng nghanol y Wal Goch a phawb yn morio Yma o Hyd!

Cyfarfod nesaf:- Dydd Mercher, 7 Rhagfyr – Gwasanaeth Dathlu'r Nadolig yng nghwmni'r Parchedig Dr Rosa Hunt a'r aelodau yn Eglwys Bethel, Rhiwbeina am 11 o'r gloch.

'Mor braf yw rhannu o brofiadau gwiw
Ac hamddena yng nghwmni cyfeillion triw.'

*Menna Brown*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina



Nos Lun 21 Tachwedd yng Nghapel Bethel Rhiwbeina cafodd ein cadeirydd Shirley Williams y pleser o gyflwyno ein siaradwr gwadd am y noson sef Alun Guy. Dywedodd fod Alun yn un ohonom ni ac yn aelod ffyddlon o'r Gymdeithas. Mae Alun wedi datblygu i fod yn awdur yn ogystal ag yn gerddor, gan ei fod wedi cyhoeddi ei hunangofiant *Tyfu'n Gerddor* yn ddiweddar.

Yn ei sgwrs naturiol a chartrefol aeth Alun â ni yn ôl i flynyddoedd ei ieuenctid. Rhyfeddai pawb at ei gof wrth iddo enwi athrawon, aelodau ei deulu a dwyn i gof droeon trwstan ei amser yn yr ysgol a'r capel. Roedd nifer o'r cymeriadau a enwodd yn dod o'r ardal hon a thynnwyd gwên wrth i nifer dda o'r gynulleidfa eu cofio hefyd! Roedd addysg a cherddoriaeth yn rhan bwysig o'i fagwraeth a rhoddodd yr aelwyd y'i magwyd ef arni sylfaen gadarn iddo ar gyfer ei fywyd a'i yrfa.

Diolchwyd iddo ar ein rhan a chafwyd orig hyfryd yn sgwrsio a chymdeithasu. Bydd ein cyfarfod nesaf nos Lun 19 Rhagfyr pryd y cawn ddathlu'r Nadolig mewn rhaglen dan ofal Gwilym Roberts.

*Dilwyn Jones*

# Colofn Natur



## *Bywyd Diddorol Hwyaden Wyllt*

**Gethin Jenkins-Jones**

Mae tua 11,000 math o adar ar y ddaear, ond dwi'n amau taw un o'r rhai mwyaf cyfarwydd yw'r hwyaden wyllt. Er bod yna adar mwy niferus a thrawiadol, nid oes gan lawer ddosbarthiad mor eang. Dyma her i chi - meddyliwch am aderyn arall gallwch weld ar bob cyfandir yn y byd (ac eithrio'r Antarctig). Nid oes llawer, ond mae'r hwyaden wyllt yn gyffredin ar draws Gogledd America, Ewrop ac Asia, ac maent bellach wedi'u cyflwyno i Seland Newydd, Awstralia a rhannau o Dde America hefyd. Mae dros 20 miliwn ohonynt ar draws y byd, ac yn sicr ym Mhrydain ni fyddwch erioed mwy nag ychydig filltiroedd oddi wrthynt. Ac yn ogystal â bod yn gyffredin, mae ganddynt hefyd fywydau hynod o ddiddorol.



*Pen y gwryw*
*Llun: BTO*

Gan eich bod yn darllen hwn ar ddechrau'r gaeaf, efallai eich bod yn teimlo bod y gwanwyn ymhell i ffwrdd. Ond os ewch chi i lyn cyfagos, byddwch yn gweld arwyddion bod yr hwyaid gwyllt eisoes wedi cychwyn paratoi ar gyfer y gwanwyn yn barod. Ar ddiwedd y flwyddyn mae'r adar yn ffurfio parau, ac am weddill y gaeaf byddant yn nofio a bwydo gyda'i gilydd. Pan ddaw'r gwanwyn, mi fydd y fenyw yn cymryd ei phartner i'r ardal o'r lle daeth hi'n wreiddiol, er efallai y bydd y lleoliad gannoedd o filltiroedd o'r lle daeth y gwryw. Mi fydd y ddau yn aros gyda'i gilydd am ychydig wythnosau, a'r gwryw yn sicrhau bod ei bartner yn cael llonydd wrth fwydo yn ystod y cyfnod dodwy, cyn gadael y gwaith magu iddi hi yn unig.



*Y fenyw*
*Llun: BTO*

Mae'r fam gan amlaf yn dodwy rhwng 9 a 13 o wyau mewn nyth ymysg llystyfiant. Bydd rhaid iddi eistedd arnynt am tua phedair wythnos cyn eu bod yn barod i ddeor. Ond, mewn gwirionedd, bydd unrhyw hwyaden wyllt yn lwcus i ddeor o gwbl, gan fod peryglon ym mhob man. Gall tywydd oer sydyn ladd y cwbl, ond y perygl mwyaf yw'r ysglyfaethwyr llwglyd, megis moch daear, llwynogod, a'r minc. Wrth weld gelyn yn agosáu, yn lle hedfan i ffwrdd, bydd y fam yn aml yn rhedeg i ffwrdd o'r nyth gan ysgwyd ei hadenydd ar y llystyfiant, fel petai ganddi anaf. Fodd bynnag, yn aml bydd yr ysglyfaethwyr yn dod o hyd i'r nyth beth bynnag, ac wrth ystyried yr holl oriau yn gwarchod yr wyau, ei bod hi wedi dodwy mwy na hanner ei phwysau wrth eu creu, a taw hi yn unig sy'n eu magu, mae unrhyw fam sy'n methu yn haeddu tipyn o gydymdeimlad.

Ond mi fydd rhai yn llwyddo. Ar ddiwedd eu trydedd wythnos, bydd y cywion yn cychwyn cyfathrebu â'i gilydd i sicrhau eu bod yn deor ar yr un pryd - onid yw esblygiad yn rhyfeddol. Pan maent yn barod, byddant yn cychwyn ar yr ymdrech anferth o wthio'u hunain allan o'r wy. Bydd llawer o adar eraill yn aros yn y nyth am tua thair wythnos cyn gadael. Ond mae cywion yr hwyaden wyllt (a'r hwyaid eraill), yn barod i adael o fewn ychydig oriau. Bydd y fam yn eu harwain at y corff dŵr agosaf, er gall hyn fod gilometrau i ffwrdd. Mae'r daith yma hefyd yn beryglus, ac mi fydd rhaid i'r fam edrych am elynion o hyd, yn ogystal â sicrhau bod yr holl gywion yn aros yn agos ati.

Wrth gyrraedd y dŵr, mae'r cywion yn gwybod yn syth sut i ddod o hyd i fwyd, ac yn ystod eu hwythnosau cyntaf byddant yn bwyta unrhyw bry a welant er mwyn tyfu'n gyflym. Er bydd y fam yn eu cymryd i'r llefydd â'r bwyd gorau, ni fydd hi byth yn eu bwydo. Wedi'r cyfan, mae ysglyfaethwyr newydd i'w hosgoi - fel y crychydd, deryn y bwn, dyfrgwn, a mwy. Mae'r wythnosau cyntaf yn aml yn galed i'r teulu oherwydd ysglyfaethwyr, diffyg bwyd ac oerfel - ac yn aml mae dros dri chwarter o'r cywion yn marw yn ystod y pythefnos cyntaf.

Mi fydd y cywion sy'n goroesi'n aros gyda'r fam am tua saith wythnos cyn gadael. Mae'r rhieni wedyn yn newid eu plu, ac am wythnos neu ddwy byddant yn colli'r gallu i hedfan. Ond ar ôl i'r plu newydd ymddangos, bydd y rhai gogleddol yn barod i fudo i wledydd twym y de, cyn i'r gylchred gychwyn unwaith yn rhagor. Gyda rhagor o lwc, bydd rhai yn byw am dros ddegawd arall, o bosib i dreulio amser yn eich pwll agosaf!

# Bwytai Merch y Ddinas



## Court's

Lowri Haf Cooke

Fel dinesydd balch, dwi'n hoff o glonc, ond nid pawb sy'n gwirioni 'run fath. Dwi'n nabod rhai sy methu dychmygu unrhywbeth gwaeth na siarad â phobol eraill mewn ciw. Ro'n i'n arfer meddwl yn llai o bobol fel 'na, gan deimlo bo nhw ddim yn cyfrannu i ysbryd y ddinas. Dwi'm yn dweud mod i'n oedi i siarad â PHAWB dwi'n gweld yng Nghaerdydd. Mam bach, na – pe byddai hynny'n wir mi fydden i 'di hen fynd o ngho. (Oi, glywais i na!) Ond ers cyfnodau clo y pandemig, dwi'n credu ein bod ni gyd wedi dod i ddeall a pharchu ffyrdd ein gilydd yn fwy; mae na bersonoliaethau allblyg on'd oes, ac eraill, yn naturiol, yn fwy mewnblyg. Ond mae na is-ddosbarthiadau yn bodoli islaw y labeli arwynebol hynny. A fasech chi'n dweud mai *introverted extrovert* 'ych chi, ynte *extroverted introvert*?!

Yn bersonol dwi'n hoff iawn o gwmni pobol eraill, ond hefyd yn derbyn nerth o lonyddwch fy nghwmni fy hun. Am wn i dyna'r fformiwla perffaith ar gyfer bod yn awdur – label sydd gen i ers union ddeng mlynedd, ers cyhoeddi Canllaw Bach Caerdydd. Ro'n i wedi cynhyrchu seinlun ar gyfer BBC Radio Cymru yn 2010 o'r enw Diwrnod yn y Ddinas - 24 awr ym mywyd Caerdydd trwy leisiau a seiniau'r brifddinas. Doedd dim cyflwynydd na selebs o gwbl, dim ond haenau o seiniau amrywiol sy'n gefnlen i'r rhan fwyaf ohonom bob dydd. Cafodd ei ddarlledu ganol p'nawn Sul, felly serch fy malchder yn y gwaith, do'n i ddim yn disgwyl i ddim byd ddod ohono. Felly syrpreis hynod braf oedd agor fy e-bost fore Llun – gwahoddiad gan y golygydd Elinor Wyn Reynolds, oedd wedi mwynhau'r rhaglen, i sgrifennu teithlyfr am y ddinas. Mae'r gweddill yn hanes!

Gyda gradd yn y Gymraeg a Daearyddiaeth, a silffoedd llawn teithlyfrau o bedwar ban byd, roedd yn gam hynod naturiol, ac eto nes i ddim dychmygu y cawn i'r fath gyfle. Gwers felly i bawb; dilynwch eich greddf a'ch brwdfrydedd naturiol, ac fe gewch chi fywyd diddorol dros ben. Ond rhaid cyfaddef, wrth i mi fynd ati i ddarllen ac ymchwilio, fe gyrhaeddais i bwynt lle ro'n i'n reit *overwhelmed*. Y peth nesaf a ddigwyddodd – trwy gyd-ddigwyddiad llwyr – oedd i fi dorri fy mhenelin. A wyddoch chi beth, dyna'r peth gorau a ddigwyddodd. Oherwydd am gyfnod o dri mis, ches i ddim gyrru o gwbl, oedd yn golygu i mi ail-ddarganfod fy ninas ar droed, wrth sgwrsio a holi a gwrando.



A dyna dwi'n dal i wneud, wrth sgrifennu'r golofn hon – a phob darn o waith creadigol. A thrwy hynny dwi'n clywed straeon, barn, ac argymhellion – gan gynnwys cynghorion ar fwytai'r ddinas! Wir, mae pobol yn caru siarad am fwyd. A dros yr wythnosau dwetha, mewn ambell siop a gorsaf betrol, mae enw un tŷ bwyta wedi codi'n amlach na'r un arall ymysg trigolion dinas Caerdydd. Court's yw hwnnw – ar y groesffordd brysur rhwng Caerdydd, Lecwydd, Cogan a Llandochau, uwchben yr afon Elai, ger Marina Penarth. Roedd Baron's Court gynt yn Toby Carvery am flynyddoedd maith, ond mae'r adeilad yno ers dyddiau teulu'r Herberts, a Brenhines Elizabeth y 1af. Mae'n adeilad trawiadol o fric nodweddiadol, ers cael ei weddnewid yn ystod y 19eg Ganrif.

Y cogydd James Sommerin a soniodd wrtha i gyntaf am Court's. Roedd un o gyn-berchnogion bwyty Etc ym Mhenarth wedi prynu'r bwyty er mwyn ei droi'n gyrchfan mwy trawiadol. 'Bwyty?' medde fi, 'nid *carvery*?' Mae pobol Caerdydd yn hoff iawn o'u *carvery* ar ddydd Sul... cam gwag feddylies i wrtha i fy hun! Wel be ydw i'n wbod? Mae'r lle wedi profi'n llwyddiant mawr, ers iddo agor fis yn ôl. Roedd Julie yn yr orsaf betrol yn canmol y lle i'r entrychion – '*the deal on a Sunday is fantastic'* medde hi, '*and I've never seen such thick carpets*'. '*Thick carpets?*' ,atebais i, '*in a restaurant? And on a Sunday too.... what about all those gravy droplets?*' '*That's what I told my husband – I'm glad I'm not the one* '*oovering.*' Roedd hi wedi bod ddwywaith yn barod, ac yn edrych ymlaen i ddychwelyd cyn 'Dolig!

Cymerais gip arlein a gweld erthygl Wales Online yn dangos lluniau o fwyty Wag-tastig, efo blodau'n tasgu o'r nenfwd a phortreadau glitzy o Tom Jones a Shirley Bassey ar y waliau. Beth bynnag ddwedith y puryddion (fel fi!) am gefnogi cwmnïau annibynnol, mae pobol yn heidio i'r Ivy ac Ivy Asia, serch yr argyfwng ariannol presennol. Ac mae'r *look maximalist* yna yn gweithio ar Insta, i annog eraill i heidio yno. Felly gan fod Court's yn fwyty lleol i Gaerdydd a'r fro, dyma benderfynu mynd yno fy hun i weld beth yn union yw'r atyniad.

Ar nos Fercher fy ymweliad, roedd staff y bwyty'n delio ag achos o fandaliaeth – rhannwyd fideo cctv ar lein o'r noson cynt, yn dangos dihiryn yn torri ffenestri gwaelod y bwyty'n deilchion. Rwy'n mawr obeithio y caiff y cnaf ei ddal, oherwydd mae'r fath beth yn brofiad erchyll i fusnes newydd – a'r gymuned ehangach. Roedd y staff wedi gofalu bod y ffenestri wedi eu

gorchuddio, ac yn wir, nid amharodd hynny ar ansawdd y noson. Cawsom ein harwain i fyny grisie'r tŵr gan fwynhau golygfa dros yr ystafell foethus – mae elfennau o'r adeilad yn fy atgoffa o fwyty Chapel ar Ffordd Churchill (enw erchyll, ynte, ar yr hen Pembroke Terrace). Yn wir, ceir sawl ystafell foethus (a charped trwchus yn un ohonynt), ynghyd â bar amryliw, papur wal trofannol, a cherddoriaeth pop-reggae a disgo. A pham lai?



Mae'r fwydlen yn benderfynol o blesio pob aelod o'r teulu, gan gynnig amrywiaeth o seigiau – byrgers, ragu eidion a pappardelle, rymp cig oen, a theisen gaws a phwdin taffi gludiog i bwdin. Cawsom flas ar bob peth – roedd y coctel cimwch i ddechrau yn wych, ynghyd â sosban fechan gysurlon o macaroni a chaws (ychwanegolyn sy'n ffasiynol ym mhobman bellach). Yr uchafbwynt i mi oedd y *Rhubarb and Custard Sphere*, ddenodd fy chwilfrydedd ar unwaith. Hufen iâ ysgafn, riwbob a chwstard ffres, creision granola a thaffi gludiog. Ardderchog. Y lleoliad sydd fymryn yn chwithig, wrth gwrs ar groesffordd brysur Heol Penarth, yn wahanol i'r Ivy a Chapel a'u tebyg ym mwrlwm canol y ddinas. Ond roedd y lle yn orlawn, mae'n debyg ar gyfer dathliadau Beaujolais Nouveau. Ac o dystio i'r addurniadau trawiadol, mae'n siwr y bydd Court's yn orlawn o bartïon Nadolig.

Ewch da chi, os 'ych chi'n dymuno rhannu yn *buzz* presennol pobol Caerdydd, i brofi *extroverted extrovert* o fwyty! A chofiwch gefnogi eich hoff fwytai bychain chi dros y misoedd heriol nesaf– dyna fyddai'r anrheg Nadolig orau posib i fusnesau lleol y gaeaf hwn.

Court's, Heol Penarth, Llandochau, Penarth CF64 1ND; 02920 700009

Bwytai Cymru a Canllaw Bach Caerdydd gan Lowri Haf Cooke, £9.99 yr un

## Ewyllys da
## Arthur Morris-Jones -
### apêl gan Norman Williams

Mae gen i go' plentyn o gasglu ynghŷd o gwmpas radio'r ysgol - ne weiarles bryd hynny - i wrando ar ddyn, gynt o Rosgadfan yn darllen y newyddion ar y BBC. Tua chanol y pumdega oedd hi mae'n siwr, cyfnod pan oedd y radio'n datblygu'n gyfrwng gwybodaeth ac adloniant i lawer.



Rydw i'n cofio gwirioni'n lân ar ddramau digri' Tony Hancock, *Hancock's Half Hour*, ac adloniant megis *The Navy Lark* a *Beyond Our Ken* ar brynhawn dydd Sul, a digon o reswm i redeg fel milgi o'r Ysgol Sul, yng Nghapel Hermon, Moeltryfan, er mwyn cael llond bol o chwerthin. Dyma gyfnod *Galw Gari Tryfan* hefyd heb anghofio'r *Noson Lawen.*

Cofiaf synnu a rhyfeddu bod llais dyn o Rosgadfan, o'r enw Arthur Morris-Jones, yn dod allan o'r un bocs â'm harwyr Seisnig, a bu'n gyfrwng balchder mawr i mi fod Rhosgadfan wedi cynhyrchu arwr o'r fath, heb sôn am Kate Roberts.

Bu farw Arthur tua dwy flynedd yn ôl ar ôl treulio'i oes yng nghyffiniau Caerdydd, heblaw am gyfnod yn Llundain. Ymddengys iddo ymgartrefu yn y Bontfaen ac yn fwy diweddar yng Nghwenfo. Byd y ddrama oedd ei ddiléit, a bu'n gefnogol iawn i Theatrau'r Ddinas megis y Sherman a'r Theatr Newydd trwy gydol ei oes. Yn gynnar yn ei yrfa credir iddo ddarlithio mewn Newyddiaduraeth yn Llundain ac ar ôl dychwelyd i Gymru bu'n darlithio mewn Drama yng Nghaerdydd - yn y Coleg Cerdd a Drama o bosib.

Ond prawf o'i awydd i weld diwylliant bro ei febyd yn ffynnu ydi'r ffaith iddo gynnwys rhoddion sylweddol yn ei ewyllys i Gyfeillion Cae'r Gors, i Ysgol Gynradd Rhosgadfan ac i Bapur Bro Lleu yn Nyffryn Nantlle.

Gobeithio y cytunwch fod caredigrwydd Arthur tuag at ei ardal enedigol yn haeddu sylw.

Cefais sgwrs ddiddorol gyda Judith Owen, Prifathrawes Ysgol Rhosgadfan, gan gytuno y byddai'n brosiect diddorol i'r plant geisio dysgu mwy am hanes a gyrfa Arthur Morris-Jones. Dyma apelio felly i ddarllenwyr *Y Dinesydd* gysylltu os oes unrhyw wybodaeth ar gael am fywyd a gwaith Arthur.

O safbwynt Cae'r Gors mae rhodd hael Arthur yn newyddion rhagorol gan mai llond dwrn o wirfoddolwyr bellach sy'n gysylltiedig â'r Cyfeillion gan i ni dros y blynyddoedd golli cyfraniadau ysbrydoledig rhai fel Eirug Wyn, Dewi Tomos, Ariel Tomos a Guto Roberts, Rhoslan.

Os oes gwybodaeth gennych am Arthur neu os am ddangos diddordeb mewn helpu Cyfeillion Cae'r Gors, cysylltwch os gwelwch yn dda â Norman Williams naill ai trwy ebost norm500@btinternet.com neu ffoniwch 01286 650201.

# Côr Meibion Taf

ww.cormeibiontaf.cymru


John Eifion a Steffan Jones

Nos Wener 4 Tachwedd, cynhaliwyd, o'r diwedd, gyngerdd a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer y 13 Mawrth 2020. Fe gofiwch mai dyna pryd y daeth y pandemig i Gymru. Roedd Côr Meibion y Brythoniaid ar eu ffordd i gynnal noson yng nghwmni Côr Meibion Taf ar y nos Wener honno cyn canu yn Stadiwm y Principality cyn y gêm rygbi ryngwladol rhwng Cymru a'r Alban y diwrnod canlynol. Gohiriwyd y rygbi, gohiriwyd y gyngerdd a throdd y Brythoniaid yn ôl am adref a hwythau eisoes wedi cyrraedd Llanidloes!

Hir yw pob aros ond dros ddwy flynedd a hanner yn ddiweddarach cafwyd noson gofiadwy yn Eglwys St John's Treganna. Yn dilyn cyfnod hesb o ran cyngherddau ac adloniant byw roedd yr eglwys dan ei sang. Arweinyddion y corau meibion yw Steffan Jones a John Eifion ac ymunwyd â nhw ar y noson gan Ferched Plastaf dan arweiniad Caryl Ebenezer mewn rhaglen ddeniadol o gerddoriaeth boblogaidd a safonol. Ynghyd ag eitemau unigol y tri chôr ymunodd y meibion â'i gilydd i ganu American Trilogy a chafwyd datganiad gwefreiddiol o 'O Gymru' pan ymunodd y merched â'r dynion. (Mae manylion llawn y rhaglen ynghyd ag ambell lun a fideo i'w gweld ar wefan Côr Meibion Taf: www.cormeibiontaf.cymru)

Mae Côr Meibion Taf yn mynd o nerth i nerth ers ailgydio o ddifrif ar ôl y pandemig. Mae nifer o gantorion newydd wedi ymuno â'r côr yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd gwahoddiad gan Undeb Rygbi Cymru i ganu ar y maes cyn y gêm yn erbyn Georgia fis diwethaf ac ym mis Chwefror byddwn yn mynd ar daith i'r Alban, gan berfformio ar Ynys Bute ac yng Nghaeredin dros benwythnos y gêm rygbi ryngwladol.

Mae'r côr yn ymarfer yng Nghlwb Rygbi Llandaf ar Rodfa'r Gorllewin am 7.30 bob nos Sul. Mae'r ymarfer yn gorffen am 9.00 ond mae'r cymdeithasu yn parhau mewn awyrgylch cartrefol braf wedi hynny. Mae croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni yn ein hymarferion pan gawn gyfle i atgoffa'n hunain o'r hen ffefrynnau a chael blas ar ddysgu darnau newydd.


Merched Plastaf


Y Tri Chôr

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Yn dilyn Datganiad yr Hydref gan y Canghellor, Jeremy Hunt, dyma'r prif faterion i'w nodi:

- Bydd Gwarant Pris Ynni y Llywodraeth yn parhau o fis Ebrill 2023 ymlaen, gan gyfyngu biliau ynni i gyfartaledd o £3,000 y flwyddyn, yn hytrach na'r cyfyngiad presennol o £2,500.
- Cyhoeddwyd taliadau costau byw ychwanegol i gefnogi'r rheini sydd fwyaf bregus mewn cymdeithas, gan gynnwys £900 i'r rhai sydd ar fudd-daliadau, £300 i bensiynwyr a £150 i'r rheini sydd ar fudd-dal anabledd.
- Bydd y pensiwn gwladol yn cynyddu 10.1% o fis Ebrill 2023.
- Mae'r lwfans personol ar gyfer treth incwm a'r trothwy ar gyfer treth incwm ar gyfradd uwch wedi cael eu rhewi tan 2028. Bydd hyn yn golygu, wrth i gyflogau godi dros y blynyddoedd nesaf, y bydd pawb yn talu mwy o dreth, hyd yn oed os bydd cyfraddau treth incwm yn aros yr un peth.
- Bydd y lwfans di-dreth ar gyfer difidendau yn gostwng o £2,000 i £1,000 ym mis Ebrill 2023 ac yn gostwng eto i £500 o fis Ebrill 2024. Mae hyn yn debygol o arwain at ragor o unigolion yn gorfod cyflwyno ffurflen dreth o fis Ebrill 2023 ymlaen.
- Gostyngwyd y trothwy ar gyfer treth incwm ar y gyfradd ychwanegol (45%) o £150,000 i £125,140 o 6 Ebrill 2023.
- Comisiynwyd adolygiad o oedran pensiwn gwladol. Mae hyn yn debygol o arwain at godi oedran cychwyn pensiwn gwladol i 67 neu o bosibl 68 ymhen ychydig flynyddoedd.
- Bydd rhaid i gerbydau trydan dalu treth cerbyd o £165 y flwyddyn o 1 Ebrill 2025. Bydd cerbydau trydan newydd sy'n costio dros £40,000 hefyd yn talu'r dreth ychwanegol ar geir drud.

***Cwestiynau Huw ac Aled: Dwi'n berchen ar asedau ariannol, fel buddsoddiadau, ac asedau eraill gan gynnwys tŷ rhent. Sut mae Datganiad yr Hydref yn effeithio arna i?***

Cyhoeddodd Jeremy Hunt y bydd y lwfans di-dreth ar gyfer treth ar eiddo yn gostwng o £12,300 i £6,000 ym mis Ebrill 2023 ac yn gostwng eto i £3,000 o fis Ebrill 2024. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn y bil treth ar eiddo o dros £1,000 i unrhyw un sy'n gwerthu ased o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Os ydych yn ystyried gwerthu tai neu fuddsoddiadau, efallai y dylech wneud hyn cyn mis Ebrill 2023. Os oes angen cymorth arnoch gyda chyfrifiadau treth ar eiddo, cysylltwch â ni a chofiwch fod angen talu treth ar eiddo o werthiant tai o fewn 60 diwrnod i ddyddiad y gwerthiant.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni trwy: huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

## Llysgenhadon o Ysgol Glantaf

Mae'r 21 o Lysgenhadon Ysgol y Coleg Cymraeg newydd ddechrau ar eu gwaith fis Tachwedd a dau ohonynt ym mlwyddyn 13 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Elen Morlais Williams a Hannah Williams.

Eu prif rôl fydd codi ymwybyddiaeth o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg tu hwnt i'r ysgol, ac am bwysigrwydd defnyddio'r iaith yn gyffredinol ymhlith pobl ifanc. Un o fanteision mynd ymlaen i astudio drwy'r Gymraeg yn y brifysgol yw'r Ysgoloriaethau sydd ar gael gan y Coleg – hyd at £3000. Mae gwybodaeth bellach ar www.colegcymraeg.ac.uk/ysgoloriaethau




Mae Elen yn edrych ymlaen at "annog mwy i siarad Cymraeg, ennyn profiadau newydd fel blogio a hyrwyddo gwaith y Coleg" tra bod Hannah hefyd yn awyddus i "hybu'r iaith ac addysg cyfrwng Cymraeg, dysgu sut i flogio a magu hyder mewn maes newydd a chyffrous".

Dywedodd Elin Williams, Rheolwr Marchnata y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: "Rydyn ni'n edrych ymlaen at gyd-weithio gyda'r criw o lysgenhadon. Maen nhw mor frwdfrydig am y Gymraeg a thrwyddyn nhw byddwn yn gallu ysbrydoli eu cyfoedion yn yr ysgol i barhau gyda'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ry'n ni'n teimlo'n gyffrous iawn yn arbennig i gydweithio gyda'r ysgolion sydd wedi ymgeisio am y tro cyntaf eleni ac edrychwn ymlaen at ddatblygu ein perthynas. Mae'r cynllun Llysgenhadon Ysgol yn ffordd werthfawr o ddod i adnabod disgyblion ledled Cymru yn ogystal â rhoi profiadau a sgiliau gwerthfawr iddyn nhw."

I wybod mwy amdanyn nhw ac i ddilyn y cynllun drwy'r flwyddyn dilynwch #llysgenhadonysgol23 ar y cyfryngau cymdeithasol ar Trydar a Facebook @colegcymraeg ac Instagram @DyDdyfodolDi

# Llyfrau i'r Hosan Nadolig

## Trioleg o nofelau noir yn cyrraedd y diwedd

Wedi pum mlynedd o ysgrifennu mae'r drioleg o nofelau tywyll sy'n cynnwys *Y Düwch* ac *Y Dial* gan yr awdur Jon Gower wedi cyrraedd *Y Diwedd*. Y tro hwn mae'r ditectifs Tom Tom ac Emma Freeman yn ôl, nid yn unig fel dau heddwas ond fel gŵr a gwraig. Ac mae ganddynt waith i'w wneud wrth i lofrudd cudd sgubo'r byw i fyd y meirw. Ond pan mae carcharor dialgar yn camu'n rhydd ar ôl blynyddoedd yn ei gell, daw â pherygl enbyd i'w priodas.

Felly nawr, heb os, dyma ddiwedd y stori, ac unwaith eto mae'r gwaed yn llifo.


Roedd yr ymateb i'r nofelau blaenorol yn bositif iawn, gyda Lyn Ebenezer yn mentro barn taw 'Yn y Gymraeg, brenin y nofel dywyll yw Jon Gower. Does neb yn fwy graffig ei ddisgrifiadau.'

Nid oedd gorffen y gyfres yn hawdd, yn ôl yr awdur: "Rwy wedi byw da'r ddau gymeriad yma'n ddigon hir i mi ddechrau credu fy mod yn eu gweld nhw ar hyd lle, wrth groesi'r stryd neu'n gwibio heibio tu nôl i ffenest car. Ac heb roi gormod i ffwrdd roedd 'na deimlad yn fy mol na fyddai'r ddau yn dal yn fyw erbyn y dudalen olaf, a chyda hynny roedd 'na ddewis ofnadwy i'w wneud.

"Roedd y nofelydd E.M.Forster wedi cynghori 'Murder your darlings' ond nid yw'n rhywbeth hawdd i'w wneud, hynny yw os 'ych chi'n ddigon creulon i wneud hynny yn y lle cyntaf. Erbyn hyn mae Tom Tom ac Emma megis yn rhan o'r teulu."

Tra'n wynebu dewisiadau trafferthus iawn o ran ffawd y cymeriadau roedd Jon yn ddigon ffodus i gael help tra'n sgrifennu'r nofel:

"Sgrifennwyd rhan helaeth ohoni yn ystod y cyfnodau clo pan gefais y pleser o gysylltu gyda 'ffan' o ngwaith, sef Ant Evans, sy'n byw yng Nghaernarfon. Penderfynom y byddai'n hwyl pe bawn innau'n danfon darnau o'r gwaith ato fe er mwyn iddo fe awgrymu beth allai ddigwydd nesaf.




"Yn wir aeth y 'broses' yma mor dda nes bod cymeriad o'r enw Ant yn camu mewn i'r llyfr erbyn yr ail hanner ac yn wir ma' gen i hanner meddwl cychwyn cyfres newydd gyda Ant fel prif gymeriad! Roedd yn braf cael mewnbwn rhywun arall oherwydd fel mae pawb yn gwybod, mae'r broses o sgrifennu yn medru bod yn unig iawn, ond hefyd roedd yn dipyn o hwyl. Mewn nofel sydd mor dywyll ar adegau roedd yn braf cael chwerthin ambell waith."

Mae Jon yn gweithio bellach ar nofel bur wahanol i'r Lolfa, sef ei nofel hanesyddol gyntaf a'r gobaith yw y bydd honno'n gweld golau dydd flwyddyn nesaf.

Lansiwyd *Y Diwedd* mewn cydweithrediad â siop lyfrau Caban yn Canna Deli, Pontcanna ar y 14eg o Dachwedd pan holwyd Jon gan ei ferch, Onwy.

---


**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***
**ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

## Gair o Galondid — Caryl Parry Jones


Mae gan bawb 'iechyd meddwl'; mae'n rhywbeth sy'n newid ar adegau gwahanol o'n bywydau. Gan ystyried y cyfnod ansicr diweddar i ni gyd ei brofi, dyma gyflwyno cyfrol fach hyfryd, llawn geiriau doeth, dyfyniadau bachog a cherddi cysurlon. Mae yna rywbeth i godi calon pawb: pytiau am deulu a chyfeillgarwch, y tymhorau, hunan-werth a phositifrwydd, hoff ganeuon a mwy.

Cynhwysir rhai o gerddi Caryl Parry Jones yn y gyfrol hon, yn ogystal â'i detholiad arbennig o gerddi a dyfyniadau i godi calon.

Cyfrol i'w chadw'n agos atoch, cyfrol i'w hanwylo – Cyhoeddwyd er budd meddwl.org
Ar gael nawr yn eich siop lyfrau leol.
Cyhoeddwyr – Gwasg y Bwthyn




## Noson Lansio Meic Stevens: Caniadau



Ar nos Iau 3 Tachwedd 2022 lansiwyd Meic Stevens: Caniadau yng Nghanolfan Chapter, casgliad cynhwysfawr a chyflawn o weithiau'r cerddor o Solfach sy'n byw yng Nghaerdydd.

Gary Slaymaker oedd yn gofyn cwestiynau i Meic, a ddathlodd ei benblwydd yn 80 oed eleni a doedd e ddim yn brin o stori liwgar neu ddwy am ei yrfa fel canwr. Cafwyd perfformiad grymus a thyner ganddo (gyda'i ferch Megan) o rai o'i glasuron ac yna fe lofnododd gopïau o'i lyfr i'r rheini ohonom a brynodd gopi ar y noson. Gan nad yw Meic wedi perfformio ers sawl blwyddyn, roedd ei weld yn canu unwaith eto yn lawenydd pur.

Mae cyfraniad Meic Stevens i ddiwylliant cyfoes Cymru wedi bod yn anfesuradwy ac am y tro cyntaf, yn Meic Stevens: Caniadau casglwyd corpws eang o ganeuon Meic Stevens ynghyd.

Bu Meic yn gweithio ar Meic Stevens: Caniadau ers sawl blwyddyn gyda'r golygydd Dr Dafydd Jones a'r archifydd Gary Melville. Meddai Dafydd Jones, sy'n hanu o'r Eglwys Newydd, "Roedd gweithio ar y llyfr yn agoriad llygad i esblygiad Meic fel bardd dros ddegawdau ola'r 20fed ganrif. Mae'n rhoi cipolwg i ni ar sut mae Meic yr artist toreithiog wedi cyfansoddi rhai o ganeuon mwyaf eiconig yr iaith Gymraeg." Geiriau sydd yno bellach i'w rhannu mewn un gyfrol swyddogol o'i waith.

Mae Meic Stevens: Caniadau ar gael nawr am £24.99 gan lyfrwerthwyr neu ar wefan arbennig www.meicstevenscaniadau.com, lle mae modd gwylio recordiad o'r noson gyhoeddi hefyd.



**YMUNWCH Â CHÔR MEIBION TAF**
**I GANU CAROLAU ELENI**

**TAFARN Y FICTORIA PARK, TREGANNA**
**NOS FAWRTH 20 RHAGFYR O 7:00 YMLAEN**

**CROESO I BAWB O BOB OED!**

# Côr Caerdydd

## Blwyddyn dathlu Côr Caerdydd yn tynnu at ei therfyn

Roedd capel y Tabernacl, yr Ais dan ei sang ar ddiwedd Hydref ar achlysur cyngerdd dathlu Côr Caerdydd yn 30 oed. Cafwyd gwledd o ddarnau amrywiol o'r tri degawd diwethaf ac unawdau arbennig gan aelodau'r côr, Aled Wyn Thomas a Llio Rhys a deuawd teimladwy gan aelod arall o'r côr, Elain Davies, a'i chwaer Lowri. Hefyd i'w clywed roedd lleisiau ifanc swynol Côr Ysgol y Wern, a Dafydd Huw yn rhoi unawd meistrolgar ar yr organ.

Drwy werthiant tocynnau a chyfraniadau yn y capel llwyddwyd i godi £1,000 tuag at Apêl Wcráin DEC Cymru. Roedd nifer o ffoaduriaid o'r wlad yn y gynulleidfa, am fod Côr Caerdydd wedi cynnig tocynnau am ddim i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Roedd Yevheniia wedi dod i'r gyngerdd gyda'i mam. Mae'n hanu o Kryviy Rih – cartre'r arlywydd Zelensky - ac mae'n un o brif wirfoddolwyr y ganolfan i ffoaduriaid Wcráin ym Mae Caerdydd.

"Roedd y gyngerdd yn wych! Dwi'n hoffi cerddoriaeth glasurol a chael cyfle i glywed cerddoriaeth mewn ieithoedd gwahanol. Roedd fy mam a minnau wrth ein bodd gydag Ubi Caritas gan Ola Gjeilo. Roedd dagrau'n dod i'r llygaid...."

Roedd cynrychiolwyr hefyd yno o Ganolfan Oasis yng Nghaerdydd sy'n rhoi lloches i ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Daeth Oscar i Gymru o Fecsico ddwy flynedd yn ôl:

"Mi wnes i wir fwynhau. Dywedais wrth fy ffrindiau – 'roeddwn yn teimlo fy mod wedi cyrraedd y nefoedd, ac yn cael fy nerbyn gan gôr o angylion'. Roedd y lleisiau'n ogoneddus a'r caneuon a ddewiswyd yn hyfryd."



***Yevheniia y tu allan i'r ganolfan i ffoaduriaid Wcráin ym Mae Caerdydd.***

Doedd dim hoe i'r côr ar ôl y gyngerdd - aed ati'n syth i ymarfer ar gyfer Cyngerdd Dathlu Dauganmlwyddiant Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Roedd Côr Caerdydd wedi cael gwahoddiad gan Eilir Owen Griffiths, uwch-ddarlithydd yn y Brifysgol ac arweinydd CF1 i ymuno â nhw ac artistiaid eraill i berfformio 'Symffoni Rhif 1 - Gorau Awen Gwirionedd' ar gampws Llambed y Brifysgol. Dyma oedd perfformiad cyntaf y gwaith a gyfansoddwyd gan Eilir, gyda'r libreto gan Dr Grahame Davies.

Does dim pall ar weithgareddau Côr Caerdydd ym mis Rhagfyr, wrth i'r flwyddyn o ddathlu ddirwyn i ben. Bydd Cyngerdd Nadolig yn Eglwys y Santes Fair, yr Eglwys Newydd ar nos Fercher y 7fed o'r mis, gyda'r tenor Wynne Evans a Chôr Ysgol Melin Gruffudd, er budd Canolfan Ganser Felindre. Yn ddiweddarach yn y mis bydd aelodau o'r côr yn ymweld â'r Ganolfan i ganu carolau. Erbyn diwedd Rhagfyr bydd Côr Caerdydd wedi canu carolau hefyd yn City Hospice, Hosbis Marie Curie ac yng nghartref gofal Oak House.

*Elin Cadifor*



***Côr Caerdydd yng Nghyngerdd Dathlu'r 30 yng nghapel y Tabernacl yr Ais.***

# Merched y Wawr Bro Radur

Braint fu cael cwmni Rhian Evans o Gaerfyrddin nos Fercher, 2 Tachwedd. Talodd deyrnged i'w rhieni am y fagwraeth gariadus a Christnogol a roddodd ynddi'r rhuddin i'w helpu i wynebu camau heriol yn ei bywyd. Yn 18 oed cafodd ddiagnosis o'r cyflwr 'retinitis pigmentosa', gan wybod felly byddai'n colli ei golwg yn raddol ac yn llwyr.

Methodd fynd yn athrawes plant bach oherwydd hyn ac aeth i Aberystwyth i astudio Cymraeg a Cherddoriaeth. Câi wersi organ gan ŵr dall ac mae Rhian yn dal yn un o organyddion Eglwys y Priordy, Caerfyrddin. Anogwyd hi i fynd i weithio at John Davies yn Llyfrgell Coleg y Drindod, dyn arbennig iawn. Roedd Rhian am i ni anfon ei chofion at Elinor, fu'n aelod ffyddlon o'r gangen.



Yn 32 oed dechreuodd ei golwg ddirywio a chynigiwyd cyfleoedd newydd iddi drwy law y llyfrgellydd blaengar Alun R Edwards. Daethpwyd o hyd i arian ar gyfer recordio atgofion hen bobl, gan ddechrau yn Ysbyty Heol y Prior a gweithwyr y rheilffordd. Yn 1979 aeth Sulwyn Thomas a Rhian ati i drefnu Papur Sain fyddai'n galluogi deillion neu bobl rhannol ddall i wybod cynnwys y papurau newyddion lleol, fel y *Carmarthen Journal* . Mae galw mawr yn dal i fod am y Cynllun Casetiau Cymraeg sy'n codi calonnau ac yn rhoi cysur i gannoedd o Gymry.

Rhian ydy'r person allweddol y tu ôl i'r ddwy fil a hanner o Lyfrau Llafar Cymraeg sy wedi eu recordio gan wirfoloddwyr, gwasanaeth sy'n gymorth a chysur i lawer. Yn wreiddiol derbyniwyd arian gan y Cynulliad a'r Llywodraeth i ddatblygu'r gwasanaeth. Ers 2010 mae'r elusen yn annibynnol ac mae angen codi arian yn gyson.

Gorffennodd Rhian ei sgwrs gyda geiriau enwog Reinhold Niebuhr:

'Duw rho ras i mi dderbyn yr hyn na allaf ei newid,

Rho nerth i mi newid yr hyn y gallaf ei newid.'

Cafwyd noson i'w thrysori yng nghwmni person annwyl, llawn gobaith ynghyd â dogn helaeth o hiwmor. Edmygwn bopeth mae wedi ei gyflawni, gan gynnwys ymweld â'r Ariannin deirgwaith ac Awstralia chwe gwaith!

*Meri Griffiths*

# Cymrodorion Caerdydd

I fyd y theatr yr aeth Cymrodorion Caerdydd yng nghyfarfod mis Tachwedd. Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom, a'r siaradwr oedd Arwel Gruffydd, cyn Gyfarwyddwr Artistig y Theatr Genedlaethol. Teitl ei gyflwyniad oedd 'Daeth y Llwyth yn Dylwyth: llwyfannu dramau perthnasol sy'n adlewyrchu Cymru gyfoes'.

Llwyth a Tylwyth yw teitlau dramâu gan Dafydd James a gyfarwyddwyd gan Arwel, y naill yn wreiddiol yn 2010 a'r llall yn wreiddiol yn 2020. Yn sicr, yr oedd Tylwyth yn arloesol am sawl rheswm, yn arbennig felly o ran deialog oedd yn gweu Cymraeg a Saesneg i mewn i ymgom gyffredin, ac yn fwy felly efallai o ran ei thema.

Drama yw Llwyth am bedwar Cymro ifanc hoyw yn mwynhau noson allan yng Nghaerdydd yn dilyn gêm rygbi ryngwladol. Maent yn rhan o sîn hoyw y ddinas, ond serch hynny, mae'r etifeddiaeth gapelyddol yn amlygu ei hun mewn sawl ffordd drwy gydol y ddrama. Mae gofynion gonestrwydd a theyrngarwch weithiau yn croesdynnu gan achosi tyndra a gofid.

Yr un cymeriadau a welwn yn Tylwyth hefyd, ond ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Erbyn hyn mae eu bywydau wedi newid cryn dipyn. Y datblygiad sy'n graidd i'r ddrama yw bod un o'r pedwar mewn perthynas sefydlog gyda dyn a gyfarfu drwy'r we, a'u bod wedi mynd ymlaen i fabwysiadu plant. Yn awr mae gofynion dyletswydd a chyfrifoldeb yn achosi tyndra. Rhaid cwestiynu rhai o ragdybiaethau'r rhyddid a fu. Ar y terfyn mae'r ddrama yn cynnig y posibilrwydd y daw ffyddlondeb a chariad yn sylfaen i gyfnod nesaf yr hanes.

Arweiniodd cyflwyniad Arwel at drafodaeth ar natur cyfraniadau gwahanol yr awdur a'r cyfarwyddwr i'r gwaith a welir maes o law ar y llwyfan. Hefyd, o ran castio, ai dim ond actorion hoyw ddylai actio cymeriadau hoyw? Yn amlwg, dyma gyfnod diddorol yn hanes y theatr Gymraeg.



*Tylwyth (Farrow Creative)]*

# Llangrannog - Wcráin

Roedd gwylio'r newyddion yn dorcalonnus pan dorrodd y rhyfel allan rhwng Wcráin a Rwsia, a phan glywais fod yr Urdd yn bwriadu rhoi cartrefi dros dro i'r ffoaduriaid yn Llangrannog, penderfynais geisio eu cefnogi gymaint ag y gallwn.

Trwy ofyn am gefnogaeth gan ffrindiau a theulu, cawsom ymateb anhygoel i apêl am nwyddau ymolchi o Gaerdydd i ardaloedd cefngwlad fy mebyd, sef Boncath a Bwlchygroes. Cymaint oedd yr ymateb fel y bu'n rhaid i ffrind o'r gorllewin addasu cerbyd cludo anifeiliaid a'i leoli ar dir y gwersyll.



Yr ail fenter oedd cerdded Penyfan a'r mynyddoedd cyfagos yn y Bannau. Eto, roedd brwdfrydedd fy ffrindiau yn wych a llwyddom i gasglu bron i £1,000.

Y digwyddiad olaf oedd noson Steilysh yng nghanolfan Rhiwbeina ddiwedd mis Gorffennaf. Cafwyd noson hwylus gan Sioned Williams o Lanuwchllyn yn sôn am ei chwmni Steilysh a gyda chydweithrediad siop ddillad Calon, Rhiwbeina, roedd modd i Sioned drafod sut i steilio menywod o bob oed a siap.



I gloi'r noson cynhaliwyd arwerthiant lwyddiannus o dan ofal Mr John Hayes, prifathro Ysgol Plasmawr.

Pleser o'r mwyaf oedd cyflwyno siec o £4,110 i'r gwersyll. Y gobaith nawr yw bydd y teuluoedd cyn bo hir yn gallu dychwelyd i'w mamwlad yn fuan. Carwn ddiolch i bawb a fu'n glwm â'r ymgyrch yma.

Gaynor Knight

# William Vaughan

Bu farw'r actor, William Vaughan (William Williams), Rhiwbeina, Caerdydd ddydd Iau, 3 Tachwedd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd yn 88 mlwydd oed.

Ymddangosodd William Vaughan ar S4C yn nyddiau cynnar y sianel mewn rhaglenni fel y gyfres dditectif *Gwydion* a *Pobol y Cwm*. Bu'n perfformio mewn cyfresi teledu fel *Excalibur: The Search for Arthur, A Mind to Kill, Robin of Sherwood* a *The District Nurse* ac mewn ffilmiau fel *Darklands, On the Black Hill* a *The Christmas Stallion*. Bu hefyd yn perfformio yn y theatr ac ar y radio.

Datblygodd gyrfa actio William Vaughan yn dilyn ei benderfyniad i adael ei swydd fel prifathro Ysgol Cilcennin yng Ngheredigion a mynd ar gwrs perfformio yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd ym 1980.

Yn enedigol o Benrhyndeudraeth, Gwynedd, bu William yn athro ym Manceinion am rai blynyddoedd gan gwrdd â'i wraig, Rhian, mewn dawns Gŵyl Ddewi yn y ddinas, a hithau wedi ei geni a'i magu yn Llanberis.

Bu'r ddau yn briod am 60 mlynedd ac roeddent yn byw yn Rhiwbeina, Caerdydd ers 70au'r ganrif ddiwethaf. Mae ganddynt ddwy ferch, Mair ac Eurwen, mab-yng-nghyfraith, Rob, a dau o wyrion, Scott a Rhys.

*Mansel Jones*

*Mae Rwth o Borthcawl wedi dysgu Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf ac mae bellach yn rhugl ar lafar ac ar bapur. Mae'n byw yn Nhreganna ac wedi cofleidio bywyd Cymraeg y brifddinas. Llongyfarchiadau mawr iddi a diolch am yr erthygl hyfryd hon am ei gwyliau byr yng Ngheinewydd.*

## Mynd ar daith



Yng nghanol mis Hydref, dathlais i fy mhen-blwydd gan fynd i ffwrdd ar daith am y tro cyntaf ers y pandemig. Es i gyda ffrind i Gei Newydd (yr un yng Ngheredigion, nid yng Nghernyw) am bedair noson. Arhoson ni mewn carafan statig yng Nghei Bach. Er fy mod i wedi cael fy magu ym Mhorthcawl (neu efallai achos hynny!) doeddwn i erioed o'r blaen wedi aros mewn carafan statig. Mae'n welliant mawr ar wersylla mewn pabell mewn cae gwlyb, heb os nac onibai!

Ar y ffordd, picion ni mewn i Gaerfyrddin (atgofion melys o ddechrau dysgu Cymraeg yng Ngholeg y Drindod pan o'n i yn fyfyriwr!) i gael cinio ac i brynu bwyd am ein gwyliau.

Wrth nesáu at arfordir Bae Ceredigion, aeth y teclyn llywio â lloeren â ni mewn cylchoedd trwy lonydd igam-ogam y Cardis! Cyrhaeddon ni'r lle cywir cyn iddi nosi, diolch byth! Roedd popeth anghenrheidiol yn y fan, oedd hefyd yn cynnwys cyswllt di-wifr a gwres canolog. Noson glud a gawson ni!

Y diwrnod nesaf roedd yr awyr yn glir ac yn dwym. Parcion ni yng Nghei Newydd trwy'r dydd am swm hollol resymol. Bois bach - roedd hyd yn oed y cyfleusterau cyhoeddus ar agor – diolch a llongyfarchiadau Cyngor Ceredigion; dych chi'n gwneud yn llawer gwell na chyngor y brifddinas!

Prynon ni docynnau ar gyfer taith gwch i weld y bywyd morol; roedd y gweinyddu wedi ei wneud trwy gyfrwng y Gymraeg (hwre!) Roedd digon o amser, felly, yn ling-di-long fe gerddon ni lawr tuag at y porthladd. Roedd y llanw uchaf newydd fod; (diolch i fy magwraeth ar lân y môr, nid dim ond y tywydd yr ydw i wedi hen arfer ei wirio'r noson gynt, ond amseroedd y llanw hefyd!) a daeth ein cwch i'n casglu ni yn brydlon.

Ar y cwch gyda ni yr oedd sawl ci ond hefyd, yn bwysicach, bobl brofiadol a gwybodus y cwmni cychod oedd yn rhoi manylion am y dolffiniaid a welon ni – dwy fam â'u dau faban! Godidog! Gwrandawon ni ar lawer o wybodaeth fanwl am adar y môr a welir ar y creigiau; gwylanod, mulfrain bach, huganod ac ati. Clywon ni ffeithiau diddorol am y morloi a'r llamhidlyddion hefyd ond, yn anffodus, welon ni mohonyn nhw.

Nôl ar *terra firma*, aethon ni am dro yn yr heulwen, trwy'r strydoedd cul, heb lawer o draffig - siŵr o fod, stori wahanol basai wedi bod yn ystod yr haf. Roedd siopau annibynnol, bach, swynol yno. Cerddon ni lan y rhiw hyd at orsaf y bad achub a'r ganolfan bywyd gwyllt forol drws nesaf, lle anfonais i gerdyn post at Mam.

Daethon ni ar draws sawl lle oedd yn gwerthu pysgod a sglodion (neu 'sgiodion', fel hysbysebodd un!) a dechreuodd ein boliau droi a thynnwyd dŵr o ddannedd! Difaru dod â phecyn bwyd oedden ni...


O dan res o faneri, sbïais i ar gerflun o fôr-forwyn yn syllu'n bell tuag at y gorwel a phenderfynais i dynnu llun ohoni a'r geiriau dwyieithog o dani hi i'w ddarllen yn hwyrach. Roedd hefyd blac arni, yn esbonio taw Cei Newydd ydy'r pwynt hanner ffordd ar lwybr arfordir Cymru. Pwy oedd yn gwybod hynny?

Y noson honno, ar ôl yr holl ymarfer corff ac awyr iach, ro'n i'n cysgu'n sownd erbyn 7.30yh ond ces i fy nihuno tua 10yh gan synnau natur.....mwy am hynny mewn erthygl arall yn y dyfodol—gobeithio.

Roedden ni ar ben ein digon yn y cornel bychan hwn o Gymru fach.

Sdim lle gwell na Chymru.

*Rwth Treganna*



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## SALEM, TREGANNA

Rydym mor falch o fod nôl gyda'n gilydd, ac mae'r capel yn llawn bwrlwm unwaith eto, gyda llawer o ddigwyddiadau i'w nodi.

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Cadi Matthews a Morgan Hammond ar eu priodas yn Salem ddydd Sadwrn 24 Medi. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

**Gig Hadau Gobaith**

Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd Gig Hadau Gobaith nos Wener 11 Tachwedd. Evan Morgan yw llywydd y Gymanfa Gyffredinol ar hyn o bryd, ac fel rhan o'i lywyddiaeth mae'n codi arian at apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru mewn partneriaeth â Chymorth Cristnogol. Mae apêl Hadau Gobaith yn codi arian tuag at broblemau newid hinsawdd ac roedd Evan eisoes wedi cerdded 70km eleni ar ymweliad â phob Henaduriaeth. Y cam nesaf oedd gig gyda Delwyn Sion, Myfyr Isaac a Geraint Cynan, Catsgam a Brigyn, ac roedd y festri'n llawn. Diolch i'r bandiau, i'r trefnwyr a'r gynulleidfa. Rydym eisoes yn edrych ymlaen at y nesaf ...

**Taith y Bobl Ifanc**

Roeddem yn falch o allu ailafael yn y daith penwythnos flynyddol i bobl ifanc oedran uwchradd y capel. Roedd taith eleni'n ymweld ag Argoed Lwyd yn Libanus (y Bannau!), a chafwyd amser arbennig. Dychwelodd y bobl ifanc yn llawn straeon am y canwio ar y gamlas, y daith gerdded yn y mynyddoedd, y gemau gyda'r nos, y bwyd da ... a'r alpacas! Diolch yn fawr i Dewi, Catrin, Rhys a Dewi am eu hebrwng.



**Gwasanaethau Nadolig**

Rydym yn edrych ymlaen at wasanaethau Nadolig Salem, ac mae'r paratoadau'n carlamu ymlaen. Dyma'r dyddiadau pwysig:

Bore Sul 18 Rhagfyr am 10.30 – Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul

Nos Sul 18 Rhagfyr am 6.00 – Gwasanaeth y Goleuni

Bore Sul 25 Rhagfyr am 9.00 – Oedfa Deuluol

Bydd yr oedfaon ar Zoom, ond byddai'n hyfryd gweld cymaint o bobl â phosibl yn llenwi'r capel.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Paned a Sgwrs**

Roedd yn hyfryd croesawu Ann Morgan o Gaerfyrddin atom yn ddiweddar. Seiliodd Ann ei myfyrdodau ar lyfr gan John Blanchard *Does God Believe in Atheists*. Pwrpas y llyfr yw dangos nad oes rhaid i ni fod â chywilydd ein bod yn credu yn Nuw a'r Creu. Mae'r llyfr yn dadlau bod gwir wyddoniaeth a gwir grefydd yn gyfeillion yn hytrach na gelynion. Tynnodd Ann ein sylw yn arbennig at ryfeddod y sêr.

**Dymuniadau Gorau**

Dymunwn yn dda iawn i Wyn James wrth iddo wella a chryfhau ar ôl y llawdriniaeth ar ei galon yn ddiweddar. Mae llawer ohonom yn gweld eisiau sesiynau wythnosol Wyn yn trafod emynau a cherddi Cristnogol. Y gobaith yw ail ddechrau'r sesiynau ym mis Mawrth. Mae Wyn yn ddiolchgar am yr holl ddymuniadau da a dderbyniodd a'r gweddïau a fu drosto.

**Pregethwr Gwadd**

Pleser yn ddiweddar oedd croesawu Steffan Job atom fel pregethwr gwadd. Mae Steffan yn henuriad yng Nghapel y Ffynnon, Bangor ac yn gydlynydd gwaith Cymraeg a Saesneg Mudiad Efengylaidd Cymru.

**Dathlu'r Nadolig**

Rhagfyr 11: Oedfa Deuluol, 10am Y Tabernacl, Yr Eglwys Newydd.

Rhagfyr 18: Carolau ar y Comin, 4pm Yr Eglwys Newydd.

Rhagfyr 25: Oedfa Bore Nadolig, 10am yn Y Tabernacl, Yr Eglwys Newydd

Estynnir croeso cynnes i'r holl gyfarfodydd hyn.

"O deuwch ac addolwn Grist o'r nef".

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

Oedfaon / Ysgol Sul (tymor ysgol) (10:30 a.m.):

4 Rhagfyr: Oedfa Gymun - Delwyn Sion (5:00 p.m.)

11 Rhagfyr: Oedfa Cartref Henoed (i'w gadarnhau); Naw Llith a Charol (5:00 p.m.)

18 Rhagfyr: Cyflwyniad Nadolig yr Ysgol Sul

25 Rhagfyr: Oedfa bore'r Nadolig (10:00 a.m.)

1 Ionawr 2023: Oedfa Gymun - Delwyn Sion

A'r rhyfel yn Wcráin yn parhau, dyma stori Nadolig o'r wlad honno – 'Y Pry Cop a'r Goeden Nadolig'.

*"'Roedd gwraig weddw yn byw mewn hen gwt bychan gyda'i phlant. Tu allan tyfai coeden binwydd dal. Syrthiodd côn o'r goeden a dechreuodd dyfu.*

*Bu'r plant yn ei gwarchod a gofalu amdani nes iddi, rhyw Nadolig, dyfu'n ddigon mawr i'w chludo i mewn i'w cartref.*

*Roedd y teulu yn dlawd - nid oedd ganddynt unrhyw fodd o addurno'r goeden Nadolig.*

*Noswyl Nadolig, aeth pawb i'r gwely gan wybod mai coeden ddi-addurn fyddai yn eu disgwyl yn y bore.*

*Clywodd y pryfaid cop oedd yn y cwt y plant yn wylo'n hidl am hyn, a buont wrthi trwy'r nos yn gweu patrymau o we sidan dros frigau'r goeden i gyd.*

*Pan ddeffrodd y plant roeddent ar ben eu digon, a galwasant ar eu mam. "Mae mor hyfryd" meddent wrthi. Fe safodd hithau mewn rhyfeddod o'i gweld.*

*Agorodd y ffenest, a gadael i belydrau'r haul sleifio i mewn, hyd nes cyrraedd brigau'r goeden. A dyna olygfa fendigedig wrth i'r gwe pry cop ymysgwyd yn lliwiau aur ac arian o flaen eu llygaid, a'r goeden yn disgleirio.*

*Ni theimlodd y wraig yn dlawd fyth wedyn, a bu'n ddiolchgar am y cyfan a ddaeth i'w rhan."*

A dyna pam fod pobl Wcráin yn cynnwys addurn ar ffurf gwe pry cop ar eu coeden Nadolig hyd y dydd heddiw.

Nadolig Llawen i bobl Bethlehem, Gwaelod-y-garth, pobl Wcráin, a phobl y byd i gyd.

## EGLWYS MINNY STREET

**Dathlu llwyddiant**



Cynhaliwyd noson ardderchog yn ddiweddar i ddathlu llwyddiant Llŷr Gwyn yn ennill y Gadair yn yr Eisteddfod. Cafwyd eitemau gan Enlli, Lleucu, Mari Fflur cyn i Llŷr ein tywys yn hwyliog drwy'r broses o lunio'r awdl ac yna ei darllen yn fywiog ar ei hyd. Cyflwynwyd englyn o waith Aled Gwyn i longyfarch Llŷr.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul mis Rhagfyr**

Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn holl oedfaon mis Rhagfyr. Yn oedfa foreol 11 Rhagfyr (9:30), bydd Oedfa Nadolig y Plant ac ymweliad gan neb llai na Siôn Corn! Yna, gyda'r nos, bydd Oedfa Nadolig y Gwragedd. Bydd cyfle i gyfrannu tuag at Gymdeithas y Beibl a Chyngor yr Ysgol Sul yn oedfaon y ddau Sul hyn. Oedfa Nadolig y Dynion a gynhelir fore Sul, 18 Rhagfyr (9:30) a thro'r bobl ifanc fydd hi yn yr hwyr. Ymunwn â'n gilydd am 23:30 ar gyfer oedfa gartrefol noswyl Nadolig ac am 10:00 fore'r Nadolig o dan arweiniad ein Gweinidog. Byddwn yn croesawu cyfeillion Eglwys y Crwys yn yr oedfa honno. Ni fydd oedfa hwyrol.

**Gweithgarwch y mis**

Bydd noson Nadoligaidd y Gymdeithas nos Fawrth, 13 Rhagfyr, yn cynnwys datganiad ar yr organ gan Owen Pickrell. Drannoeth am 19:30, cynhelir cyfarfod defosiynol tawel dan arweiniad y Gweinidog dan y pennawd 'Ein Hadfent'.

**Mis Ionawr**

Bydd oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul yn dilyn y drefn arferol yn ystod mis Ionawr. Byddwn yn croesawu'r Parchedig Gethin Rhys i bregethu yn oedfaon 22 Ionawr ac oedfaon aelodau a gynhelir ar 29 Ionawr.

Bydd Caffi Celf yn cael ei gynnal fore Mercher, 11 Ionawr (11:30) a chyfarfodydd Bethania ar 17 a 31 Ionawr (19:30). Bydd y Gymdeithas yn dathlu'r Plygain yn Eglwys Sant Teilo, Amgueddfa Sain Ffagan am 14:00 brynhawn Sul, 15 Ionawr ac yn croesawu Ian Gwyn Hughes a'r Parchedig Ddr R Alun Evans nos Fawrth, 24 Ionawr.

## BETHEL, RHIWBEINA

Yn arwain at y Nadolig rydym yn edrych ymlaen at gynnal Bore Coffi i godi arian ar gyfer y Banc Bwyd.

Hefyd byddwn yn ymuno gyda'n gilydd ar gyfer cinio Nadolig ar 6 Rhagfyr.

Mae'r côr wedi bod yn brysur yn ymarfer carolau ar gyfer y gwasanaeth Nadolig ar 18 Rhagfyr, pan fydd yr oedfa yng ngofal yr aelodau. Ar y Sul hwnnw hefyd rydym yn gobeithio croesawu'r plant yn ôl i'n plith wedi cyfnod hir hebddynt, yn bennaf oherwydd y cyfnod clo. Edrychwn ymlaen at eu gweld yn eu gwisgoedd Nadolig ac efallai cawn ymweliad gan Sion Corn.

Ni chynhelir gwasanaeth yn y capel ar ddydd Nadolig nac ychwaith ar Ionawr y cyntaf ond byddwn yn ail-ymgynnull yn y flwyddyn newydd ar 8 Ionawr.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Bydd cynulleidfa'r Offeren Gymraeg yn eglwys Teilo Sant yn dathlu'r Nadolig gydag Offeren Gwylnos eleni eto. Cynhelir yr Offeren brynhawn Sadwrn 24 Rhagfyr am 4.15pm. Croeso cynnes i bawb. Noder bod yr amser ychydig yn gynt na'r Offeren fisol – mae hyn achos bydd Offeren y plwyf yn cychwyn am 6:30.

Hefyd cynhelir Plygain yn Eglwys Pedr Sant, Y Rhath, ar 18 Ionawr. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhan o weithgaredd yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol yn y rhan hon o'r ddinas.

Cynhelir yr Offeren yn Gymraeg yn Eglwys Teilo Sant, yr Eglwys Newydd CF14 1AD, ar Sul olaf pob mis heblaw mis Rhagfyr a mis Awst.

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## TABERNACL, YR AIS.

Llongyfarchiadau i Arwen Williams ar ennill lle yn Academi De Cymru dan 16, Cymdeithas Bêl-droed Cymru.

Llongyfarchiadau hefyd i Efa Gruffudd Jones, merch Linda Gruffydd, ar ei phenodiad yn Gomisiynydd y Gymraeg.

Rhannwn lawenydd Helen a Ceri Preece wrth iddynt groesawu ŵyr arall i'r teulu. Ganwyd mab Yvette a Dewi yn Wellington, Seland Newydd.

Mae Cyngor Caerdydd wedi lansio menter Canolfannau Clyd ac wedi gwahodd y Tabernacl i fod yn rhan ohoni. Bydd hyn yn golygu y bydd y capel ar agor fel Canolfan Glyd bob prynhawn Sul o 2 hyd 5 ac amser cinio dydd Mercher rhwng 12 a 2.

Ar ddydd Llun olaf mis Tachwedd cafwyd cyfarfod o'r clwb darllen yn Zio Pepe. Y llyfr dan sylw y tro hwn oedd *Capten* gan Meinir Pierce Jones.

Diolch i organyddion y capel am gynnal sawl Organathon ar ddyddiau'r gemau rygbi rhyngwladol. Casglwyd symiau anrhydeddus at achos yr Wcráin a chronfa'r organ.

Cynhaliwyd oedfa Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd ddiwedd mis Tachwedd. Y thema eleni oedd Bywyd Buddugoliaethus – yn seiliedig ar adnodau o Ail Lyfr Paul at y Corinthiaid.

Zohrah Evans oedd y siaradwr yn y Gymdeithas am Ddau ganol mis Tachwedd. Gwahoddwyd hi am yr ail waith i gynnal y Gweithdy Barddoni yn dilyn ei llwyddiant blaenorol.

Mewn un o'n cyrddau canol wythnos cawsom deyrnged i Nia Rhosier, un o gymwynaswyr mawr ein hoes, gan Robin Gwyndaf. Bu Nia'n llywydd anrhydeddus Cymdeithas y Cymod hyd at ei marwolaeth eleni.

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniad i'r oedfaon yn ystod mis Tachwedd – ein gweinidog y Parch Ddr Rosa Hunt, plant yr Ysgol Sul, y Parch Denzil John, Marc Jon Williams a chwiorydd y capel.

## BETHEL, PENARTH

Daeth ton o dristwch dwfn dros gynulleidfa oedfa'r bore 20 Tachwedd pan gyhoeddodd ein gweinidog fod ein brawd Howard wedi marw dridiau ynghynt wedi cystudd garw. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Betsan, ei wraig, ac at ei ferched, Hannah a Ruth. Erys cof cynnes am un annwyl iawn, am ei ffyddlondeb i oedfaon Bethel, ei sirioldeb a'i ffraethineb.

Da oedd cael cwmni Moyra a Liz yn yr oedfa yn ddiweddar; hyn yn arwydd o welliant graddol mewn iechyd.

Cafodd rhai o'n plith gwmni difyr eraill yn paratoi cyfraniad Bethel at Ŵyl Coed Nadolig, Eglwys yr Holl Saint ym Mhenarth.

Braf oedd cynnal y Ffair fore Sadwrn 12 Tachwedd wedi cyfnod blin o dair blynedd heb ffair, oherwydd y pandemig. Hyfryd oedd bod yn y bwrlwm. Derbyniwyd dros fil o bunnoedd.

Mae Emma am ddiolch i bobl Bethel a gyfrannodd yn hael at stondin elusen Achub y Plant yn y Genedlaethol eleni. Derbyniwyd £5300. Mae pobl Bethel hwythau yn eu tro am ddiolch i Emma a'i chydweithwyr yn yr elusen am eu gwasanaeth ar hyd y flwyddyn.

Llongyfarchion cynnes i Mali (merch Jo) ac Andy ar achlysur eu priodas.

Gwerthfawrogwn yn fawr eto gamp John a Gerald yn sicrhau gwasanaeth ffrydio'r oedfa. Mae'n fantais fawr fod modd erbyn hyn i'r sawl fu'n bresennol yn yr oedfa ei dilyn eto yn eu cartref. Bydded hyn yn hysbys i bregethwyr!

Wedi hir ddisgwyl oherwydd absenoldeb yn dilyn y pandemig roedd yn hyfrydwch cael arweiniad y cyfaill Dr Phil Ellis ar Sul 27 Tachwedd, Sul cyntaf tymor yr Adfent. Seiliwyd ei fyfyrdod ar yr hanes yn Luc 1, 39 – 56 o'r cyfarfod rhwng Elisabeth a Mair, gan bwyso ar nodweddion nodedig Emyn Mawl Mair.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Rydym yn dymuno'n dda i Beryl Cattell sydd wedi mynd i Gartref Heol Don, Yr Eglwys Newydd.

**Y Gymdeithas Ddrama**

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Howard Evans, aelod o'r Gymdeithas Ddrama ers nifer o flynyddoedd. Roedd Howard yn berson annwyl, direidus, bob amser yn llawn hwyl. Gwelwn ei eisiau. Mae'n cydymdeimlad yn fawr gyda Betsan, Hannah a Ruth yn eu profedigaeth.

**Apêl Hadau Gobaith**

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus i godi arian tuag at Apêl Hadau Gobaith yr Eglwys Bresbyteraidd i Cymorth Cristnogol. Diolch i Siân Griffiths a'r pwyllgor am y trefniadau.

**Yr Ysgol Sul**

Cynhaliodd yr Ysgol Sul noson Guto Ffowc gyda'r plant a'r rhieni wedi mwynhau yn fawr. Diolch i Hannah Thomas am y trefniadau.

**Y Gymdeithas**

Cafwyd noson arbennig yn llawn gwybodaeth anhygoel yng nghwmni Hefin Mathias yn annerch ar 'David Davies, Llandinam (1880-1944), Sylfaenydd y Deml Heddwch ac Undeb Cymru o Gynghrair y Cenhedloedd. Diolchwyd yn gynnes i Hefin am gytuno i ddod o dan amgylchiadau anodd a chydymdeimlwyd yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth.

**Gwasanaethau Ionawr 2023**

Bydd y Parch Aled Edwards yn gwasanaethu ar y Sul cyntaf o 2023 gydag Oedfa Gymun yn y bore. Byddwn yn croesawu y Parch Dafydd Andrew Jones ar 8 Ionawr a'r Parch Glyn Tudwal Jones ar y 15fed. Mae'r 22ain i'w drefnu, ac yna ar y Sul olaf, y 29ain gwasanaethir gan y Parch Robert Owen Griffiths.

## EBENESER

**Penblwydd Hapus**

Ddydd Iau, 11 Tachwedd dathlodd Beti Pierce; mam Vikki Tudur, ei phenblwydd yn 94 mlwydd oed a chafwyd dathliad arbennig yng nghwmni'r teulu. Pob dymuniad da iddi.

**Gadael am dde Lloegr**

Mae Beti Wyn Davies wedi symud i fyw i Southampton i fod yn ymyl ei mab a'i merch. Dywed Beti fod ei fflat newydd yn edrych allan dros y môr i gyfeiriad Ynys Wyth. Beti Wyn a'i diweddar ŵr, Denzil fu farw ddechrau'r flwyddyn, oedd dau o aelodau hiraf a ffyddlonaf Ebeneser a hynny ers dyddiau Paradise Place. Roedd eu cyfraniad yn ddiflino. Cafwyd cyfle i ffarwelio â Beti ar ôl oedfa pnawn Sul, 16 Tachwedd, gyda phaned a chacen. Mae hi wedi addo y bydd hi'n dod ar ymweliad yn achlysurol ac wedi dweud y bydd croeso mawr i unrhyw un alw heibio iddi hithau pan yng nghyffiniau Southampton. Dymunwn yn dda iddi yn ei chartref newydd.

**Clwb Sêr a Llan Llanast**

Yn ystod mis Tachwedd cynhaliwyd Clwb Sêr (yr ysgol Sul) yn ystod gwasanaeth y pnawn, fel arbrawf i weld a fyddai mwy o blant yn mynychu. Mae bywyd wedi newid yn llwyr ers i Covid effeithio ar bawb a rhaid ceisio addasu i ofynion bywyd. Braf yw gallu dweud bod tua 20 o blant wedi dod i Llan Llanast, a gynhelir unwaith y mis, ar 16 Tachwedd. Cawn weld i'r dyfodol sut byddwn yn symud ymlaen. Cadwch lygad allan am wybodaeth ar ein gwefan www.ebeneser.cymru a'n tudalen Facebook, Ebeneser Caerdydd.

**Noson gyri**

Aeth criw o ryw 25 ohonom i gael gwledd ym mwyty Indiaidd Empire, Ffordd Albany nos Fawrth, 22 Tachwedd. Cafwyd gwledd i'w chofio, a lot o hwyl yng nghwmni ein gilydd. Mae nosweithiau ble mae bwyd ar gael yn boblogaidd iawn! Llwyddwyd hefyd i godi ychydig o arian ar gyfer ein helusen am eleni, Tir Dewi.

*Alun Tudur a Beti Wyn Davies*



## EGLWYS DEWI SANT

**Llongyfarchiadau i**

Dyfrig ein Ficer ar gael ei ddyrchafu yn Ganon yn Eglwys Gadeiriol Llandaf a thrwy hynny yn aelod o Gabidwl y Gadeirlan. Cynhaliwyd y gwasanaeth i sefydlu Canoniaid yn yr Eglwys Gadeiriol ddiwedd Tachwedd.

Gyfarwyddwr Cerdd ac Organydd eglwys Dewi Sant, Ieuan a'i wraig Megan ar enedigaeth Nansi Alaw. Dymunwn bob bendith arnynt.

**Yr Ysgol Sul**

Mae'n galonogol gweld bod yr Ysgol Sul wedi ailgychwyn ar y Sul cyntaf a'r trydydd o'r mis a gwasanaeth aml -oedran ar yr ail Sul.

**Ettlingen**

Derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth Ursula Stöcklin. Hi a'i gŵr Dieter a sefydlodd y ddolen a fu rhwng Eglwys Dewi Sant a'u heglwys yn Ettlingen yn y Goedwig Ddu yn yr 80au.

**Gofal ein Gwinllan**

Yn y gyfres hon o anerchiadau bu'r Dr Rhidian Griffiths yn trafod 'Tri Offeiriad Llengar - Ioan Tegid, Daniel Ddu ac Alun. Testun anerchiad y Dr Siân Rhiannon Williams oedd 'Llwydlas a Gwenynen Gwent a'r Cymreigyddion – dwy noddwraig frwdfrydig'.

**Carolau'r Adfent**

Ar Sul cyntaf yr Adfent, cafwyd gwasanaeth gyda'r côr yn cymryd rhan flaenllaw. Cafwyd darlleniadau a cherddoriaeth yn canolbwyntio ar themâu y tymor hwn.

**Coffi a Chlonc**

Ar 19 Tachwedd cafwyd sesiwn Coffi a Chlonc yn neuadd yr eglwys. Ni fydd bore coffi ym mis Rhagfyr.

**Côr yr Eglwys**

Ail-gychwynnwyd yr ymarferion ar nosweithiau Mawrth am 6:00 p.m. Os oes diddordeb gennych mewn cerddoriaeth eglwysig, mae croeso i chi ymuno â ni.

**Gwasanaethau**

Bob dydd Sul am 10:30 y.b. ac am 6:00 y.h. a gwasanaeth am 8:00 y.b. ar Sul cyntaf a thrydydd Sul y mis. Gweinyddir y Cymun Bendigaid yn yr eglwys bob bore Mercher am 10:30 gyda phaned i ddilyn.

Y prif wasanaethau dros y Nadolig:
Nos Sul 18 Rhagfyr 6:00 y.h. Gwasanaeth Naw Llith a Charolau
Dydd Mercher 21 Rhagfyr 1:00 y.p. Carolau'r Cilgant
Noswyl Nadolig 24 Rhagfyr 11:00 y.h. Cymun Cyntaf y Nadolig
Dydd Nadolig 25 Rhagfyr 9:30 y.b. Y Cymun Bendigaid
Gŵyl y Diniweidiaid 27 Rhagfyr 10:30 y.b. Y Cymun Bendigaid

Gwasanaeth Cristingl

Cynhelir ein gwasanaeth Cristingl nos Sul 8 Ionawr am 6:00 y.h. - gwasanaeth i'r teulu cyfan.

# Y seremoni raddio gyntaf yng Nghaerdydd ar gyfer y Drindod Dewi Sant

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) wedi cynnal ei seremoni raddio gyntaf yng Nghaerdydd. Yn ystod y seremoni, a gynhaliwyd yng Nghadeirlan Fetropolitan Dewi Sant Caerdydd, cyflwynwyd graddau i fyfyrwyr o ystod o raglenni gan yr Athro Medwin Hughes, DL, Is-Ganghellor.

Yn ei araith i raddedigion, dywedodd yr Athro Hughes: "Rwy'n falch iawn o'ch croesawu i gyd i'r seremoni gyntaf a gynhelir yng Nghaerdydd. Mae hwn yn amser arbennig o ddathlu i gydnabod cyflawniadau ein myfyrwyr ac i ddiolch i bawb sydd wedi eich cefnogi trwy gydol eich astudiaethau. Mae eich llwyddiant wrth ennill eich gwobr yn ganlyniad i'ch gwaith caled a'ch ymrwymiad. Gallwch fod yn falch o'ch cyflawniadau a chofiwch fod y Brifysgol yma i gefnogi eich datblygiad proffesiynol parhaus".

Ymhlith y graddau a ddyfarnwyd roedd Perfformio, Astudiaethau Lleisiol Uwch yn ogystal ag Addysg Blynyddoedd Cynnar, Peirianneg, Arweinyddiaeth a Rheoli ac Ymarfer Plismona Proffesiynol.

Graddiodd carfan gyntaf rhaglen flaenllaw Radd Brentisiaeth y Brifysgol hefyd. Dywedodd Bridget Mosely, Pennaeth Uned Prentisiaethau PCYDDS: "Rwy'n falch iawn o ddathlu graddio ein prentisiaid heddiw. Mae wedi bod yn wych eu gwylio'n datblygu yn eu gyrfaoedd ac i rannu eu llwyddiant gyda'u cyflogwyr".

Mae llawer o'r graddedigion wedi bod yn astudio'n rhan-amser ac yn y gymuned gan gynnwys y rhaglenni Arweinyddiaeth a Rheoli: Sgiliau ar gyfer y Gweithle ac Addysg Blynyddoedd Cynnar gan ganiatáu i fyfyrwyr gael mynediad at ddysgu mewn lle sy'n gyfleus iddynt.

Dywedodd Natalie Macdonald, Cyfarwyddwr Rhaglen Addysg y Blynyddoedd Cynnar: "Mae bob amser yn foment mor falch i ni weld ein myfyrwyr yn graddio a chael y cyfle i ddathlu eu llwyddiant gyda nhw. Mae ymrwymiad a chyflawniad y myfyrwyr yn wirioneddol ysbrydoledig ac rydym yn credu yng ngrym mynd ag addysg allan i fyfyrwyr yn y gymuned. I'n tîm yn PCYDDS, nid datganiad yn unig yw 'trawsnewid addysg, trawsnewid bywydau' – rydym yn ei weld trwy ein myfyrwyr a'n graddedigion anhygoel bob dydd."

Dywedodd Bronwen Williams, Cyfarwyddwr Academaidd Academi Golau Glas PCYDDS: "Mae'n wych gallu dathlu cyflawniadau ein myfyrwyr yn y seremoni raddio. Mae'n gyfle i ddathlu eu gwaith caled, eu penderfyniad a'u hymrwymiad i rôl cwnstabliaid yr heddlu a'u llongyfarch ar fod yn flaenllaw ar y llwybr newydd hwn i blismona proffesiynol."

*Lowri Thomas*
*Prif Swyddog Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus*



# Colofn Hannah

## *Hoson Nadolig*



**Hannah Roberts**

Pwy sy'n cofio hongian hoson wrth bostyn y gwely noson cyn 'Dolig? Yn 'y mhlentyndod i o'dd rhaid i honno fod yn hen hoson wlân Dad, cnau yn y gwaelod ac oren, a 'na gyd! Ac UN presant arall, o'dd dim ishe sach fawr ar Sion Corn pyrt hynny! Odd ca'l oren amser rhyfel yn speshal gan fod prinder ffrwythe.

W i'n dal i gysylltu gwynt *tangerines* â'r Nadolig am taw dim ond pyrt hynny fydden i'n ca'l nhw. Gyferbyn â fi fan hyn ma hewl o'r enw Tangmere Drive, Tangerine Drive yw hi 'di bod i fi erio'd! A'r UN presant arall geso i yn bum mlwydd o'd o'dd y ddol Miriam, a gallaf glywed hi'n dwad yn ei phram bren o wneuthuriad Dad, a'r olwynion yn atseinio ar linoliym y landin.

Ma 'na hanes bach am ddechreuad yr hoson 'Dolig. Sant Niclas yn aros gyta theulu tlawd ac ishe diolch iddyn nhw. Ar ei ymadawiad, towlodd gwtyn yn llawn aur trwy'r ffenest ac fe ddishgynnodd mewn hoson! Mewn fersiwn arall, taflwyd pelen aur, ddatblygodd mewn i'r oren. Hefyd credir taw dyna sail y tair pelen ar yr arwydd tu fas i shop *Pawnbroker*.

Wrth y Gwely

Yn eisiau, just un hosan - yn un fawr
awn fory i'w hongian;
pan ddaw'r wawr, gwel mawr a mân
fod ei sled wedi hedfan.



***Llun: Pinterest***

Yr Hen Hosan

Dyma fi'r hen hosan
yn cuddio yn y drar,
'w i nawr ar ben fy hunan
lle'r unwaith o'n i'n bâr.

'W i yma'n eitha unig,
neb yn fy newis mwy,
pan ma nhw i gyd yn gwisgo
ma nhw wastod ishe dwy.

Rhai bach yw'r lleill, rhai lliwgar
a finnau'n llwyd ddi-lun,
yma fydda i mwyach
mewn drar ar ben fy hun.

Un o sane Dad o'n i
bues gyda fe'n y Pwll,
ond nawr ma'r lofa wedi cau
a finne nawr â thwll!

Ond heno ma 'na gyffro!
'w i'n ca'l fy nhynnu mas
a Iolo'n gafael ynof
cyn mynd lan y star ar ras.

Caf fy hongian wrth ei wely
a'm gadael yma nawr,
fe geso i fy newis,
dim ond fi o'dd ddigon mawr.

Ma Iolo yn ei wely
a'i lygaid bach yn dyn,
ma'r nos yn hollol ddistaw
tu fa's - yr eira gwyn.

Ond ust - wi'n clywed rhywbeth
ryw sŵn ar ben y to,
ac yna, troed 'ny simne
a llais yn gweud "Helo".

A nawr ma rhywun yma
hen ddyn yn cario sach,
mae e'n dechre llanw ngheg i
a phethe i  Iolo bach.

Wrth gwrs 'dw i'n hosan 'Dolig
'dw i'n hapus hapus nawr
am taw FI yw hosan Santa
dim ond FI o'dd ddigon mawr.

# Merched y Wawr Caerdydd

Ar 8 Tachwedd, cawsom gyfarfod difyr yng nghwmni Mati Roberts a esboniodd hanes y Prosiect Matico. Pan oedd yn nyrsio yn Llundain yn 2014, cafodd Mati gyfle i wirfoddoli yn Ghana a chael ei tharo gan y bwlch anferth rhwng teuluoedd breintiedig a'r lleill – plant ifanc yn gorfod gweithio o fore tan nos, plant oedd yn dyheu am lyfrau ac addysg a'u rhieni'n methu fforddio'r ffioedd.

Wrth deithio o gwmpas yr ardal, byddai'n edmygu'r ffabrigau anhygoel a werthwyd er mwyn creu dillad traddodiadol lliwgar, ond dysgodd fod y diwydiant tecstilau llewyrchus hwn wedi dirywio ers yr 80au gan golli 20,000 o swyddi. Y rheswm am hyn yw bod Ghana bellach yn derbyn 15 miliwn o eitemau o ddillad wedi'u diosg gan ddefnyddwyr, ym Mhrydain yn bennaf, bob wythnos. Mae hyn wedi creu diwydiant newydd, ond ar draul y diwydiant tecstilau a llygredd amgylcheddol – mae 40% o'r deunyddiau yn mynd i safleoedd tirlenwi neu, gan amlaf, yn cael eu dympio ar yr arfordir neu yn y wlad.

Cyn ymadael yn 2017, prynodd Mati rai o'r ffabrigau er na wyddai sut gallai eu defnyddio. Gofynnodd ffrind iddi wneud lamplen a sylweddolodd Mati mai dyma'r ffordd orau o amlygu harddwch y ffabrigau lliwgar hyn. Defnyddiodd y darnau o ffabrig dros ben a deunyddiau ecogyfeillgar i lunio gemwaith unigryw – dyma fu dechreuad ei busnes, Matico.

Cyn gadael Ghana, roedd Mati wedi cwrdd ag adeiladwr o'r enw Kofi a fu'n llwyddiannus yn ei waith am fod rhywun wedi 'rhoi siawns iddo'. Credai'n gadarn ym mhwysigrwydd addysg, a'i nod oedd rhoi'r un cyfle i eraill. Yn 2016 penderfynodd adeiladu ysgol newydd yn Accra a chytunodd Mati i gyfrannu elw o werthiannau Matico ar gyfer rhedeg a datblygu'r ysgol. Agorodd yn 2018 gyda 37 o ddisgyblion a gynyddodd yn gyflym i 126. Yn 2019 ychwanegwyd dosbarth newydd a llyfrgell ac anfonwyd dau lwyth llong o ddeunyddiau addysgol a chyfrifiaduron o Gymru.

Ym Mawrth 2020, caeodd yr holl ysgolion yn Ghana oherwydd Covid a dioddefodd busnes Kofi. Yn ffodus, roedd gwerthiannau Matico yn ffynnu yn ystod y cyfnod hwn a defnyddiwyd yr elw i dalu cyflogau'r athrawon. Gwnaeth y rhain waith gwych yn sicrhau bod pob un o'r 205 o blant yn parhau â'u haddysg trwy gydol yr argyfwng. Cyn i'r ysgolion ailagor ar ddechrau 2021, roedd angen arian i adeiladu ystafell ddosbarth i'r flwyddyn hynaf. Trwy ddiwydrwydd Kofi a chymorth ariannol gan gwsmeriaid Matico, cyflawnwyd y dasg erbyn y dyddiad ailagor, 18 Ionawr. Ers hynny mae Kofi a Matico wedi ychwanegu mwy o ystafelloedd – eu nod yw cynnig addysg i blant hyd at 16 oed, rhoi cymorth gyda ffioedd a deunyddiau angenrheidiol i deuluoedd sydd mewn cyni, a sicrhau bod pob plentyn yn yr ardal yn cael cyfle i ddysgu.

Roedd Mati wedi dod â detholiad o'i nwyddau hyfryd ac ar ôl y sgwrs, cawsom gyfle i edmygu a phrynu eitemau. Mae hi'n gwerthu mewn marchnadoedd yn lleol a thrwy'r cyfryngau. Ac wrth brynu ganddi, cawn y boddhad ychwanegol o wybod ein bod yn cefnogi traddodiadau a chyflogau yn Ghana ac yn cyfrannu at addysg ei phlant.

Joy Davies



# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

Mae Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd wedi ailgychwyn y rhaglen fisol, ar ôl cyfnod tawel oherwydd Cofid 19.

Eu siaradwraig wadd fis Tachwedd oedd Dr Carol Bell. Dyma ddarlun ohoni gyda Gwynn Angell, Llywydd y Cylch, yng ngwesty'r New House, Draenen Pen-y-Graig.



# Siaradwyr Cymraeg Newydd




## Cerddoriaeth

### Gwilym Dafydd

Tybed faint ohonoch sy'n mwynhau gwrando ar gerddoriaeth. Ydych chi'n hoffi canu? Ydych chi wedi canu gyda chôr neu yn gwneud hynny ar hyn o bryd?

Bydd Y Wal Goch wedi canu'r Anthem Genedlaethol o leiaf dair gwaith yn Qatar, yng Nghwpan y Byd, cyn gemau pêl-droed Cymru yn erbyn U.D.A., Iran a Lloegr.

Rydw i wedi prynu tri llyfr gan gerddorion enwog yn ystod y cyfnod diweddar a'r cyfan yn ddiddorol a darllenadwy iawn. Diolch i'r awduron.




Gwelais i'r cerddor Alun Guy yn Tafwyl yn y Castell yn yr haf. Soniodd ei fod yn mwynhau darllen tudalen y dysgwyr a chlywed sut mae cynifer yn cael hwyl arni wrth ddysgu'r Gymraeg.

Hoffais y stori amdano yn chwarae'r organ bib yng nghapel Minny St. yn berson ifanc am y tro cyntaf:

'Un bore Sul yn yr haf a Mam yn 'dep' am fis Awst, ces fy neffro'n sydyn o'm trwmgwsg gan lais fy nhad yn dweud 'Alun! Gwisga'n gyflym! Bydd rhaid i ti chwarae'r organ heddi…mae migrain ar dy fam ac mae'n rhy hwyr i gael neb arall i gymryd ei lle wrth yr organ!' Ches i ddim amser i gael paned na brechdan! 'Dyma rif yr emynau!' meddai Nhad. A dyna'r tro cyntaf i mi chwarae'r organ bib fawr mewn gwasanaeth… '

Oedd Alun yn nerfus? Mae'r ateb ar dudalen 25.

Oes gyda chi eich hoff emyn neu emyn-dôn? Neu hoff garol gan ei bod hi bellach yn Dymor yr Adfent. Medrwch ddarllen am 'Hoff Emynau'r Cymry' mewn llyfr a gasglwyd gan y Parch. Robert Nicholls, Llundain. Ynddo ceir 64 o Gymry adnabyddus yn rhannu eu hoff emynau. Mae ambell un wedi dewis carol.

Pwy sy'n cofio'r cymeriad Denzil yn yr opera sebon Pobol y Cwm? Mae e hefyd yn weinidog erbyn hyn: Parch. Gwyn Elfyn Lloyd Jones. Mae e wedi dewis fy hoff emyn-dôn i sef Côr Caersalem o waith Joseph Parry. Dyw e ddim yn Caneuon Ffydd!

A chwarae teg i'r canwr opera Aled Hall o Ddôlgran, Pencader sydd wedi cyhoeddi ei hunangofiant difyr ers rhai wythnosau. Teitl y llyfr yw 'O'r Da i'r Direidus.' Daeth Aled draw i Clonc Neros Jams Hywel i ddweud shwmae yn ystod ei awr ginio yn ystod ymarferion ym mis Hydref. Efallai eich bod wedi sylwi ar ei luniau gwych ar Trydar bob dydd a hyd yn oed ar glawr Y Dinesydd mis Tachwedd! Lansiwyd yr hunangofiant yn Yr Egin, sef Canolfan S4C yng Nghaerfyrddin ac mewn siopau eraill gan gynnwys Y Felin yn Yr Eglwys Newydd nos Iau, 1 Rhagfyr.

### Gair o'r Fro - Suzanne Condon

Dyn ni'n awyddus iawn i gael mwy o siaradwyr yn gwirfoddoli ar ein cynllun Siarad. Mae pob un yn cynnig hyd at 10 awr dros chwe mis i siarad â dysgwr. Mae hynny'n bosib mewn café neu dros Zoom. Erbyn hyn mae rhai pobl sydd wedi gwirfoddoli o'r blaen wedi dod yn ffrindiau ac maen nhw'n cwrdd o hyd. Dych chi'n barod i gamu i'r adwy? Dewch ymlaen, mae'r iaith yn galw.

Bydd dathliad Nadolig yn Palmerston wedi'i drefnu gan Dysgu Cymraeg y Fro a Menter Bro Morgannwg. Dewch ddydd Gwener 16 Rhagfyr, 1 o'r gloch tan 3 ar gyfer sesiynau'r dysgwyr ac yna rhwng 4 o'r gloch a 6 ar gyfer teuluoedd. Dyn ni'n gobeithio cael ymweliad gan Sion Corn unwaith eto.

Canslwyd Clwb Gwylio Adar fore Sadwrn 5 Tachwedd oherwydd rhagolygon tywydd gwael. On'd oedd mis Tachwedd yn fis gwlyb! Erbyn i chi ddarllen hwn gobeithio bydd cyfarfod misol bore Sadwrn, 3 Rhagfyr wedi digwydd yn ardal Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd.

Felly Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o gyfranwyr a darllenwyr y golofn hon. Beth am ysgrifennu paragraff yma yn 2023? Anfonwch air at eirianagwilym@gmail.com

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd***
**ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

### Pêl-droed Cymru

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae sylw pawb wedi bod ar Qatar. Yr oedd presenoldeb Cymru yng Nghwpan y Byd wedi arwain at gyffro rhyfeddol a sylw digynsail i Gymru a'r iaith Gymraeg. Yn anffodus, siomedig iawn fu perfformiadau'r tîm ar y cae ac ni fu modd camu ymlaen o'r grŵp. Cyn bo hir, bydd sylw selogion dilynwyr pêl droed yn troi nôl at glybiau.

### Steffan Webb sy'n cloriannu tymor Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd hyd yma



Adroddiad arall, rheolwr arall, chwaraewyr newydd ond does dim byd wedi newid o safbwynt canlyniadau. Croeso a phob lwc i Mark Hudson. Hwyl fawr, a diolch am eich dewrder, i Steve Morison. Roedd wedi creu tîm newydd ond, ymddengys ei fod wedi anghofio bod rhaid sgorio goliau i ennill gemau. Chafodd e ddim llawer o amser i wella pethau chwaith.

Rydym wedi gweld pum rheolwr ers Tachwedd 2019 sef Warnock, Harris, McCarthy, Morison a Hudson a hynny er gwaethaf y dywediad nad ydych yn ennill wrth newid rheolwr drwy'r amser. Mae Vincent Tan wedi bod i'n gweld ni a rhoi cytundeb i Mark Hudson "wrth dderbyn bod y canlyniadau yn dod". Dyw hynny ddim yn swnio'n dda iawn wrth feddwl ein bod ni wedi colli 6 o'r 8 gêm ddiwethaf. Mae'n bosib iawn y byddwn ni'n gweld chweched rheolwr newydd yn y flwyddyn newydd. Amseru gwael iawn ond efallai y bydd rhaid gwneud os ydym i osgoi cwymp i Adran Un.

Uchafbwynt y flwyddyn hyd yma? Curo Norwich City 1-0 yn y gêm gyntaf un. Ie, roedd gobaith. Roedd steil newydd o chwarae ac roeddem wedi curo tîm da. Er hynny efallai bod y cardiau coch yn awgrymu nad oedd popeth yn iawn. Isafbwynt y flwyddyn? Curo Middlesbrough 3-2! Er i ni ennill roedd yr ail hanner yn ddiflas iawn ac wedi arwain at ddiswyddo'r rheolwr dwi'n siŵr. Roedd y chwaraewyr i gyd yn nerfus, wedi gwastraffu amser a throseddu o'r eiliad gyntaf tan yr olaf ac roedd yn boenus i'w wylio.

Dwi'n gwybod ein bod ni wedi colli i Fryste ac Abertawe, eto, ond dw i ddim yn credu bod neb wedi synnu at hynny ar wahân i ffans Abertawe a Bryste oedd yn methu credu eu lwc nhw mae'n siŵr.

Gadewch i ni ddathlu'r hyn sy'n mynd yn iawn sef llwyddiant Merched Dinas Caerdydd sydd ar frig Uwch Gynghrair Cymru wedi chwarae 9 ac ennill 8 gydag un gêm gyfartal. Maen nhw wedi sgorio 29 gôl ac wedi ildio pedair yn unig. Mae'n wych i weld twf gêm y merched. Eleni, maen nhw'n gwneud yn well nag Abertawe a Met Caerdydd. Gobeithio eu bod nhw'n gallu cynnal y safon yma tan ddiwedd y flwyddyn. Efallai bod modd i dîm y dynion ddysgu rhywbeth ganddyn nhw!

Mae Ruben Colwill a Mark Harris wedi bod allan gyda Chymru yng Nghwpan y Byd. Mae'n siŵr y byddant wedi dysgu llawer. Gobeithio y byddant wedi elwa o'r profiad a dod nôl yn hyderus ac yn barod i achub gyrfa Mark Hudson fel rheolwr a statws Dinas Caerdydd yn y Bencampwriaeth unwaith eto. Aeth Steve Cooper â Nottingham Forest o'r gwaelod i'r brig rhwng y Nadolig a'r Haf felly mae'n bosibl. Pam ddim?



Nadolig Caerdydd

# Cymdeithas Cymru-Ariannin

Cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Ceris Gruffudd ym Methel Rhiwbeina nos Fercher, 16 Tachwedd. Daeth nifer dda i'r cyfarfod, yn groesdoriad o rai a anwyd yn Y Wladfa, yn ymwelwyr â'r Wladfa dros y blynyddoedd ac ambell un gafodd eu hysgogi i ystyried mynd ar y daith dair mil o filltiroedd o Gymru. Roedd Ceris wedi bod yn ymwybodol o fodolaeth y Wladfa ers blynyddoedd ond tua 1976 dechreuodd ei gysylltiadau â'r lle. Teithiodd allan gyda Chôr Godre'r Aran yn 1977, y cyntaf o ddeuddeg ymweliad. Daeth yn aelod o bwyllgor gwaith y Gymdeithas yng nghyfarfod blynyddol 1996 ac yn ysgrifennydd yn dilyn marwolaeth Shan Emlyn yn 1998. Mae o newydd ymddeol eleni.



***Rhisiart Arwel a Ceris Gruffudd***

Cawsom gyfle i weld nifer o gysylltiadau Ceris drwy'r lluniau ddangoswyd ganddo. Dilynwyd hyn gan sesiwn fer ond diddorol pan drafodwyd cyfraniad y capeli Cymraeg a'r ysgolion Cymraeg / Sbaeneg ddoe a heddiw. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Rhisiart Arwel, Cadeirydd Cymdeithas Cymru-Ariannin y De-Ddwyrain. Diolchwyd am gael defnyddio Bethel ac i bawb gyfrannodd at noson lwyddiannus gyda'r diolch pennaf yn mynd i Ceris am ddod atom o Benrhyncoch.

Mae'r gymdeithas wedi trefnu dangos y ffilm *Poncho Mamgu* yn Y Chapter, Treganna nos Wener 6 Ionawr am 7.00. Pris mynediad yn £5 yn cynnwys diod o win Malbec a rhywbeth bach i'w fwyta.

Drama ddogfen (gydag isdeitlau) am fywyd Elen Davies ydy Poncho Mamgu, yn gyntaf amdani'n blentyn ym Mhatagonia ac yn ddiweddarach fel merch ifanc yng Nghymru. Mae'n adrodd hanes y caledi a wynebodd y Cymry cynnar yn ardal Dyffryn Camwy yn yr Ariannin, marwolaeth ei mam a'r cyfeillgarwch a'r cydymdeimlad a ddangoswyd iddi gan Indiaid brodorol yr ardal.

Yn y diwedd dychwelodd i Gymru a byw nes ei bod bron yn gant oed ond roedd ei chalon yn dal ym Mhatagonia. Mae'r rhaglen ddogfen yn adrodd hanes taith ei theulu i'r ardal i ddychwelyd y Poncho a roddwyd iddi gan y brodorion a'r cynlluniau i droi ei chartref yn ganolfan ddiwylliannol. Croeso cynnes i bawb.

*Dafydd Griffiths*




# Merched y Wawr Y Felin

Diolch i Glenys, ein cadeirydd am wahodd Huw Stephens, y cyflwynydd a'r DJ, i ddod draw atom yn mis Tachwedd. Roedd nifer o aelodau ein cangen wedi bod yn gyn-athrawon ar Huw fel bachgen lleol o'r Eglwys Newydd ac o'r herwydd cafwyd tipyn o dynnu coes ar hyd y noson!

Dechreuodd y sgwrs drwy agor bocs o brops hud a lledrith yr oedd yn defnyddio yn fachgen 11 oed. Roedd Huw yn arfer cynnal sioeau hud i blant o dan yr enw 'Huwdini' ac fe rannodd ambell i dric gyda ni ar y noson!

Dechreuodd wirfoddoli gyda'r orsaf radio Rookwood Sound fel rhan o gynllun Dug Caeredin yn bymtheg oed a buan y symudodd ymlaen i gynnal rhaglen radio yno am 2 flynedd gan ddod yn llysgennad Rookwood gyda Frank Hennesey yn ddiweddarach. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn gwrando ar gerddoriaeth yr 80au a'r 90au ar Radio 1 ac fe wireddwyd ei freuddwyd drwy ddod yn gyflwynydd *Session in Wales* ar Radio 1 gan weithio gyda Bethan Elfyn – ac yno y bu am y 21 mlynedd nesa yn gwneud tipyn o enw iddo ei hun fel cyflwynydd radio. Erbyn hyn mae'n gweithio fel cyflwynydd llawrydd. Mae wedi cyflwyno yn Glastonbury a chyflwynodd raglen deledu yn ystod y cyfnod clo ar hanes celf yng Nghymru. Pinacl y noson oedd cael pori dros ei gasgliad o recordiau Nadoligaidd.

Diolch yn fawr Huw am noson ddifyr iawn.

Rydym yn cwrdd ar drydydd nos Iau'r mis am 7.30 pm yn Festri Capel Methodistiaid yr Eglwys Newydd, Ffordd Kelston, Yr Eglwys Newydd. Os am ymuno gyda ni ebostiwch mywyfelin@gmail.com neu cysylltwch â Glenys (Cadeirydd) ar 07857342464 neu Janet (Ysgrifennydd) ar 07810363232.




***Huw yn rhannu ei gasgliad o recordiau Nadoligaidd gyda Dilys (ein Trysorydd) a Gwenda (un o'n haelodau).***

# Pobol y Rhigwm

Cystadleuaeth gref o ran nifer oedd yr un dymhorol hon, er mai cymysg oedd y safon. Daeth un triban ar ddeg i law ac mewn gwirionedd, gellid eu didoli'n ddau ddosbarth, sef y tribannau hynny oedd yn gwbwl driw i ofynion y mesur, a'r rheini oedd yn gwyro rhyw fymryn o'i hanfodion. Roedd yn dda gweld bod pob ymgeisydd wedi cynnwys odl gyrch rhwng diwedd y drydedd linell a chanol y llinell glo. Fodd bynnag, llithrodd chwe ymgeisydd o ran agweddau penodol eraill o'r mesur hwn. Mae patrwm pendant i aceniad y geiriau ar ddiwedd llinellau triban – gair diacen e.e. 'gwyliau' (sy fod ar ddiwedd llinellau 1, 2 a 4) a gair acennog (e.e. 'gŵyl' (sy fod ar ddiwedd llinell 3). At hynny, mae'n rhaid cael saith sill yn llinellau 1, 2 a 4 ac wyth, wedyn yn y drydedd. Dyletswydd beirniad, wrth gwrs, yw pennu pwy gafodd yr hwyl orau ar greu cerdd ar fesur penodol ac er i'r chwe ymgeisydd y soniais i amdanyn nhw fy nifyrru gyda sylwedd eu tribannau, gobeithio eu bod nhw'n gwerthfawrogi rheidrwydd y beirniad i barchu'r mesur a osododd fel tasg!

Dyma ddod at y pump ymgeisydd a gyflwynodd dribannau cwbwl gywir. Mae Tomos yn dribanwr crefftus a gofalus – ychydig yn henffasiwn yw'r gystrawen ar adegau ond mae yma driban crafog sy'n werth ei atgynhyrchu ar gyfer darllenwyr *Y Dinesydd*:

Seren Newydd  
Y lloeren yn yr wybren  
Yw'r fodern seren glaerwen  
A doethion fyrdd yn trefnu'r daith!  
Oes gobaith i'n daearen?

*Tomos*

Mae Melchior a Chegrwth yn haeddu rhannu'r trydydd safle. Seren y geni sy o dan sylw gan y ddau ymgeisydd fel ei gilydd. Disgrifiad uniongyrchol o arwyddocâd y seren sy gan Melchior (un o'r Gwŷr Doeth a'i dilynodd, wrth gwrs) ac mae wedi'i fynegi'n hyfryd. Gall yr ymgeisydd fod yn falch o'i driban. Gresynu mae Cegrwth nad yw'r seren a welwyd dros y stabl ym Methlehem fel petai'n tywynnu, erbyn hyn, ac mae 'na dinc Beiblaidd llwyddiannus i'r ymadrodd 'syndod teulu'r llawr' sy'n asio stori'r geni gyda realiti'r oes seciwlar sy ohoni. Dau driban o safon.

Goleuaist lawer noswaith,  
Yn llusern ar yr hirdaith.  
Tywysaist hwy, y tri gŵr doeth,  
At gyfoeth preseb gobaith.

Melchior

Ar draws galaethau'r gofod  
Daeth d'olau'n llawn rhyfeddod,  
Mwy fyth yw syndod teulu'r llawr  
Dy fod yn awr 'di darfod!

Cegrwth

Mentrodd Pwy? greu triban am seren haniaethol, sef chwaraewr ffwtbol sy'n disgleirio ar ei ddydd ond yn llithro ymaith y tu hwnt i'r co, yn y pen draw (sy'n cael ei adleisio gan y ffugenw). Mae'n driban llwyddiannus a dyma groesawu'r penderfyniad i beidio ag osio tuag at yr amlwg, sef seren y geni. Wedi dweud hynny, mae'n driban amserol yn ystod Nadolig 2022 gan ein bod ni wedi gweld toreth o bêl-droedwyr ar lwyfan Cwpan y Byd yn ddiweddar. Tybed faint o'r rheini fydd megis sêr gwib, maes o law? Diolch i Pwy? am driban cofiadwy, gwylier rhag yr arfer o roi'r ansoddair cyn yr enw 'olaf chwib', arfer sy wedi hen ddyddio, erbyn hyn ond ni waeth am hynny, mae'n driban gwreiddiol sy wedi cyfoethogi'r gystadleuaeth:

I bêl-droediwr o fri  
Yn anterth aur ei ddyddiau  
Disgleiriodd gyda'r gorau  
Ond gwelwyd wedi'r olaf chwib  
Mai seren wib oedd yntau!

Pwy?

Triban Ffoadur wnaeth greu'r argraff pennaf arna i y tro hwn. Yn y lle cynta, mae'n driban crefftus dros ben. Mae'n gynnil tu hwnt gyda'r mynegiant yn gwbwl esmwyth a'r mesur wedi'i ddefnyddio at ddiben. Mae yma gryn sylwedd, wedyn. Mae'r triban wedi'i rannu'n ddau gwestiwn a'r rheini, dybiwn i, yn cael eu gofyn gan y ffoadur yn y ffugenw. Fel Cegrwth, mae Ffoadur yn plethu gobaith a llewyrch stori'r geni gyda chyflwr difethol yr oes sy ohoni. Nodwedd fwya effeithiol y triban yw cynnwys y gair 'arwain' yn y naill gwestiwn a'r llall. Dyma gyferbynnu'n arswydus rhwng y seren wnaeth arwain y gwŷr doeth at y crud, a'r ffaith bod arlliw o ddim yn arwain y ffoaduriaid yn eu dingis ar draws y Sianel beryglus neu o grombil tywyllwch Wcráin. Mae'r cyferbyniad amhosib rhwng 'golau tirion' a 'th'wyllwch du' hefyd yn dangos gallu Ffoadur i ddethol ei eiriau'n ofalus ac yn effeithiol. Na, dyw neges Ffoadur ddim yn un sy'n brithio â chysur y Nadolig ond mae'n amserol ac mae'n sobri, ac yn haeddu'r wobr gynta, heb os:

R'ôl arwain taith y doethion  
Ble'r aeth y golau tirion?  
A ddaw yn ôl i'n harwain ni  
O d'wyllwch du a chreulon?

Ffoadur

Nid ar chware bach mae sgrifennu triban – mae'n fesur sydd â'i wreiddie yn yr englyn cyrch ac mae iddo baramedrau sy'n rhaid eu parchu, os ydym i gynnal ein traddodiad barddol cyfoethog. Diolch, felly, i'r cystadleuwyr am dribannau crefftus ag iddyn nhw ôl myfyrio. Diolch ymhellach i bawb sy wedi cyfrannu tuag at y golofn hon eleni, profiad calonogol iawn yw bod yn feirniad arni. Dyma obeithio bydd y reddf i farddoni'n parhau yn 2023!

**Enillydd Tachwedd**

**Peter Griffiths**

## Cystadleuaeth Rhagfyr /Ionawr

Limrig yn cynnwys y llinell:

**Mae'n rhaid wrth grempogen i'w bwyta**

neu

**Mae'n rhaid wrth bancosen i'w bwyta**

*Aron Pritchard*

Anfonwch eich cynigion erbyn 22 Ionawr, 2023 at: eirianagwilym@gmail.com Gwobr: Tocyn llyfr £10.

# Y DIGWYDDIADUR

## Rhagfyr

**Mercher, 7 Rhagfyr**
Cyngerdd i ddathlu'r Nadolig er budd Canolfan Ganser Felindre gyda Chôr Caerdydd, Côr Ysgol Melin Gruffudd a'r tenor Wynne Evans, yn Eglwys y Santes Fair yr Eglwys Newydd am 7.30pm. Mynediad yn £10 trwy raglen ar y drws; am ddim i blant ysgol.

**Iau, 8 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. Noson yng nghwmni Brigyn i ddathlu'r Nadolig, yng Nghaffi a Deli Foxy's, Penarth, CF64 3ED, am 7.30pm. Pris: £25 (pris y tocyn yn cynnwys cerddoriaeth a bwffe). Am ragor o fanylion, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Sadwrn 10 Rhagfyr**
Cyngerdd Nadolig Merched Plastaf a Bechgyn Plasmawr yn Eglwys Sant Ioan yr Efengylwr (St John's), Treganna am 7.00pm
Tocynnau: £5.00 ar gael o Caban a Ffloc a chan aelodau'r corau neu gellir talu wrth y drws

**Llun, 12 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Christine James ar y testun 'Cerddi'r Nadolig'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Mawrth, 13 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Noson am gonsurio gan Tweli Griffiths, yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Mawrth, 13 Rhagfyr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson Nadoligaidd yn cynnwys datganiad ar yr organ gan Owen Pickrell am 7:30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 19 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Dathlu'r Nadolig yng ngofal Gwilym Roberts, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

## Ionawr

**Mercher, 4 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Bore cymdeithasol, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Mercher, 4 Ionawr**
Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs gan Maggie Smales, 'Pobol y Cwm, Affganistan a Fi', yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwen Emyr 029-2084-8545 neu gwen.emyr@gmail.com

**Gwener 6 Ionawr**
Cymdeithas Cymru-Ariannin y De-Ddwyrain. Dangosiad o'r ffilm *Poncho Mamgu* yn Y Chapter, Treganna am 7.00. Mynediad £5.00 yn cynnwys diod o win Malbec a rhywbeth bach i'w fwyta. Croeso i bawb. Cewch noson i'w mwynhau.

**Mawrth, 10 Ionawr**
Merched y Wawr, Caerdydd. Sgwrs gan Iestyn Davies, 'Everest a'r Daeargryn', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso i aelodau hen a newydd. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eluned Press (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).

**Sul, 15 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Dathlu'r Plygain yn Eglwys Sant Teilo, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, am 2:00 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 16 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Elin Jones, Llywydd y Senedd, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Mercher, 18 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Marian Evans ar y testun 'Cwiltio a Brodwaith', yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Gwener, 20 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Holi'r Prif Lenor, Sioned Erin Hughes, enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2022, am ei chyfrol arobryn *Rhyngom*. Trwy gyfrwng Zoom am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb. I dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Mawrth, 24 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Ian Gwyn Hughes, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, yn sgwrsio â'r Parchg Ddr R. Alun Evans, am 7:30 p.m. yn festri'r capel. Croeso cynnes i bawb.

## Chwefror


**Mercher, 1 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Bore cymdeithasol, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).


**Mercher, 1 Chwefror**
Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs gan Beti George ar y testun 'Heriau'r Daith', yn Ysgoldy Eglwys Crist, Heol Isaf, Radur, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwen Emyr (029-2084-8545 gwen.emyr@gmail.com).

**Iau Chwefror 2**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Clwb Golff Radur, 7:30yh Siaradwraig: Dr Branwen Davies, Cyfarwyddydd Cwmni Theatr yr Urdd. Am fanylion pellach cysyllter â'r Cadeirydd, Elin Tudur (etudur@aol.com neu 07768095678)

**Gwener, 3 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Arwel Ellis Owen, 'John Ceiriog Hughes, Mostyn Thomas a Fi: Canrif o Ddarlledu o Gymru'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Tâl aelodaeth blynyddol £10. Y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £3.00. I ymaelodi neu i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com; 029-2089-1802). Croeso cynnes i bawb.

## Rhif: 229



### Ar Draws

6. A ddaw bri i'n tŷ neu helbul? (7)
7. Cludo deg ar ôl y modur (5)
9. Rhoi'r bêl dros y bar (5)
10. Ansicrwydd arweinydd heb y celwydd (7)
12. 'Y ----- ----- ----- ym Methlem
    Orchfygodd bob gelyn y sydd' (JE) (5,1,5)
14. '----- ----- ----- ----- bobl y byd' (5,1,4,1)
18. Lle i newid cyfeiriad (7)
19. Anifail tebyg o bob cyfeiriad (5)
21. 'Daw heno ----- newydd , dlos,
    I wenu uwch dy ben' (BD) (5)
22. 'Draw yn nhawelwch Bethlem dref
    Daeth baban bach yn ----- byd' (JH) (7)

### I Lawr

1. Mynyddoedd yn uchelder yr India (5)
2. 'Y Cadarn ddaeth ----- -----,
   Y Deddfwr gynt ar Seina' (DH) (1,5)
3. Beth i'th alw ar ddiwedd bore llawn braw (3)
4. Y ferch ar y traeth (6)
5. Nid y lled sy'n addas ond y wisg (7)
8. Oriog yw alaw Dan (7)
11. Mae'r rali yn dychwel i'r plwyf yma (7)
13. Cael ffrwyth o logell y genedl (7)
15. 'Canys ----- a aned i ni, mab a roddwyd i ni' (Eseia) (6)
16. 'Hosanna! Haleliwia!
    Fe anwyd ----- ----- ni' (DW) (5,1)
17. Cant a phum deg na ddychwel ar ddechrau tymor (5)
20. Disgleiriant mewn amserau da (3)

**Enillydd Croesair Rhif 227**
**Joy Davies, Caerdydd**

**Atebion Croesair Rhif 227**

**Ar Draws:** **1.** Tacteg ddoeth 7. Encil 8. Ymwelwr 10. I Galfari 11. Cnaf 13. Hamdden 15. Mawredd 16. Nodi 17. Canwriad 21. Dirfawr 22. Anafu 23. Cyfarfodydd

**I Lawr:** 1. Tocia 2. Calchfaen 3. Ewythr 4. Ddawn 5. Englynwr 6. Dewin hynod 9. Ryfeddodau'r 12. Macwyaid 14. Modurdy 18. Adref 19. Iraidd 20. Bara

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Chwefror, 2023
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

---

**Mawrth, 7 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Kate Crockett ar y testun 'Mwy na Bardd: Bywyd a Gwaith Dylan Thomas', am 7:30 p.m. yn festri'r capel. Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 9 Chwefror**
Cylch Cadwgan. Sgwrs gan Vaughan Hughes ar y testun '*Y Cyfansoddiadau* – gwobrwyo a ffraeo', yng Nghlwb Rygbi Pen-tyrch am 8.00pm. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys M. Roberts (groberts@btinternet.com).

**Mawrth, 14 Chwefror**
Merched y Wawr, Caerdydd. Sgwrs gan Ruth Shelley, 'Trwy Lygad Lliw', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed (ar y gornel rhwng Westminster Crescent a Heol Cyncoed) am 7.00pm. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Manylion gan, Eluned Press (07761-358755 (eluned@press0.plus.com )

**Mercher, 15 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Sgwrs gan Trystan a Sian Ffrancis, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbeina, CF14 6JJ, am 11.00am. Manylion gan yr Ysgrifennydd: Beth Killen (029-2056-6508).

**Gwener, 17 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Simon Brooks, awdur y gyfrol *Hanes Cymry*, ar y testun 'Lleiafrifoedd mewn llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg gan leiafrifoedd', yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, CF10 3EU, am 7.00pm. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 20 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Rhisiart Arwel, yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbeina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).

**Anfonwch fanylion ar gyfer Y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James Manylion ar dud. 2**

# Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd o Weithgareddau

Gyda'r Nadolig yn agosáu, beth am ymuno â ni i ddathlu'r Ŵyl? Dyma ddetholiad o'r gweithgareddau sydd ymlaen dros yr wythnosau nesaf:

**Sgwrs y Mis** - nos Lun, 12 Rhagfyr, 7.30yh: Nesáu at y Nadolig

Dyma gyfle ichi anghofio am yr holl brysurdeb a'r paratoi am y tro, a mwynhau gwledd o gerddi tymhorol, hen a newydd, yng nghwmni'r Athro Christine James. Croeso i chi ddod â phaned a mins pei – neu ddau – i'r sesiwn gyda chi.

**Gweithdy Gwyddoniaeth** – prynhawn Llun, 12 Rhagfyr yn Ysgol Pencae. Sesiwn Nadoligaidd i blant (bl. 1 i 6) yng nghwmni SparkLab Cymru. Mwy o fanylion ar ein gwefan.

**Parti Nadolig i'r Teulu** yng nghanolfan Addysg Gymunedol Palmerston, Y Barri mewn cydweithrediad â Dysgu Cymraeg y Fro a Cymraeg i Blant. Dewch i fwynhau gweithdai celf a chrefft, i ganu carolau ac wrth gwrs, i weld Siôn Corn. Dydd Gwener, 16 Rhagfyr, 4.00 -6.00yp.

**Cyngerdd Cymunedol Nadoligaidd**

Bore Llun, 19 Rhagfyr, 11.30, Canolfan Beulah, Rhiwbeina – yn rhad ac am ddim, diolch i gerddorion Live Music Now. Gwledd o gerddoriaeth dymhorol, a phaned, yng nghwmni Top Brass Trio.

Wedi hoe dros y Nadolig, bydd ein gweithgareddau poblogaidd yn dychwelyd ar ddechrau'r flwyddyn gydag ambell sesiwn newydd yn eu plith. Cynhelir y gweithgareddau isod ar Zoom:

**Blwyddyn y Beirdd**

Yn dilyn llwyddiant ei sesiynau y llynedd, bydd Yr Athro Christine James yn dychwelyd gyda chwrs newydd yn y Flwyddyn Newydd. Y tro hwn, awn ar daith drwy'r tymhorau gan drafod cerddi amrywiol. Yn dechrau: Prynhawn Mawrth, 24 Ionawr, 2.00-3.00yp. £12 am 4 sesiwn.




**Hanes Cymru**

Yr Athro Paul O'Leary o Brifysgol Aberystwyth fydd yn cynnal y cwrs nesaf yn y gyfres Hanes Cymru. Mudiadau protest yng Nghymru fydd dan sylw mewn cyfres o dair sesiwn sy'n dechrau nos Lun, 6 Chwefror am 7.30yh. £10 am 3 sesiwn.

**Sgwrs y Mis**

Edrychwn ymlaen at fwy o sgyrsiau difyr yn ystod 2023. Rhowch y dyddiadau ar y calendr!

Nos Lun, 16.01.23 – Yr Athro Rhys Jones: Pwy yw'r Cymry? A ble mae Cymru?

Nos Iau, 16.02.23 – Dr Brieg Powel: Wcráin: Blwyddyn Ymlaen

Nos Iau, 30.03.23 – Dr Marion Loeffler: Penodau tywyll yn hanes Y Waun Ddyfal a'r Mynydd Bychan

Nos Lun, 24.04.23 – Jane Aaron: Cranogwen

Nos Iau, 25.05.23 - Yr Athro Mari Jones: Pam Cadw Ieithoedd Bach yn Fyw?

Nos Lun, 26.06.23 - Yr Athro Bill Jones: 'Rhyw garchar rhyfeddol yw'r llongau ymfudol': Profiadau mordeithiol mudwyr o Gymru yn y 19eg ganrif

**Sesiynau i deuluoedd a phlant**

Bydd sesiynau Amser Stori, Deffro'r Synhwyrau a Bygi Heini / Heini Gyda'm Babi yn ail-ddechrau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ym mis Ionawr. Ac i ddathlu Dydd Santes Dwynwen, byddwn yn cynnal Gweithdy Coginio i blant (bl. 2 i 8), ar ddydd Sadwrn, 21 Ionawr yn neuadd Eglwys St Peters.

Gwefan: www.mentercaerdydd.cymru / www.menterbromorgannwg.cymru

Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg

Instagram: https://www.instagram.com/mentercaerdydd/

E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

